
# Gwneud y Cysylltiad

## Dysgu iaith 5 –14

Cymraeg
Saesneg
Cymraeg ail iaith
Ieithoedd tramor modern



AWDURDOD CYMWYSTERAU, CWRICWLWM AC ASESU CYMRU
QUALIFICATIONS, CURRICULUM & ASSESSMENT AUTHORITY FOR WALES
accac

Noddir gan Llywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

Cyf: AC/GM/0522

ISBN 1 86112 525 9

Pris: £4.95

Cyhoeddwyd gyntaf 2003

**© Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) 2003**

Gwaherddir atgynhyrchu, storio, addasu neu gyfieithu'r cyhoeddiad hwn, ar unrhyw ffurf neu drwy unrhyw gyfrwng, heb gael caniatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr ymlaen llaw, neu o fewn telerau trwyddedau a roir gan yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint. Gellir atgynhyrchu darnau ohono at ddibenion ymchwil, astudio preifat, beirniadaeth neu adolygu, neu gan sefydliadau addysgol at ddibenion addysgol yn unig, heb ganiatâd, cyhyd ag y cydnabyddir hynny'n llawn.
Mae Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru yn elusen a eithrir o dan Atodlen 2 Deddf Elusennau 1993.

Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru, Adeiladau'r Castell, Stryd Womanby, Caerdydd CF10 1SX

**Gellir archebu rhagor o gopïau o'r ddogfen hon drwy gysylltu â:**

Cyhoeddiadau ACCAC, Blwch 9B, Thames Dittonx, Surrey  KT8 0BN

Ffôn: (0870) 242 3206 (yn Gymraeg) (0870) 242 3207 (yn Saesneg)
Ffacs: (029) 2037 5494 (yn Gymraeg) (0208) 957 5012 (yn Saesneg)
e-bost: info@accac.org.uk
safwe: www.accac.org.uk

Wrth archebu, dyfynnwch y teitl a'r cyfeirnod.

# Gwneud y Cysylltiad – Dysgu iaith 5–14


**Crynodeb gweithredol** 2

**Rhagarweiniad** 3

**Arfer dda mewn datblygu sgiliau iaith disgyblion** 5

Datblygu sgiliau iaith

Datblygu sgiliau dysgu iaith ar gyfer iaith newydd

Tuag at ddwyieithrwydd a throsglwyddo o un iaith i'r llall

**Sgiliau ar draws ieithoedd** 10

Sgiliau cyffredin yn y rhaglenni astudio

Nodweddion iaith

Gweithgareddau a chyd-destunau

**Gwneud cysylltiadau – cynllunio a gweithgareddau ystafell ddosbarth** 17

Cysylltiadau cychwynnol

Y camau nesaf

Datblygu cysylltiadau mwy integredig

**Ymwybyddiaeth iaith** 22

Gweithgareddau ystafell ddosbarth

**Cynnydd mewn dysgu iaith** 24

**Monitro a gwerthuso** 26

Disgyblion

Athrawon

Ysgol gyfan

**Atodiad A – Defnyddio terminoleg gyffredin** 29

Rhestr termau

**Atodiad B – Cynnydd yn y targedau cyrhaeddiad** 37

**Atodiad C** 44

Canllawiau ar gyfer cynnydd mewn gramadeg a sgiliau mewn ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 3

**Atodiad Ch – Cyhoeddiadau defnyddiol a chyfeiriadau safweoedd** 46

# Crynodeb gweithredol

Yn dilyn lansio Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Ieithoedd Tramor Modern, *Ieithoedd sy'n Cyfrif,* ym mis Ebrill 2002, bu ACCAC yn gweithio gydag Estyn i gynhyrchu canllawiau i ysgolion a fydd yn:

- amlinellu egwyddorion ac argymhellion sy'n gyffredin i ddysgu iaith ar draws Saesneg, Cymraeg, Cymraeg ail iaith ac ieithoedd tramor modern
- helpu athrawon i adeiladu ar ddysgu blaenorol ac yn helpu i feithrin mwy o gydweithio rhwng adrannau Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern.

Mae'r canllawiau'n ymdrin â Chyfnodau Allweddol 1, 2 a 3 a bwriedir iddynt gefnogi athrawon iaith i gyd yn ogystal â chydlynwyr llythrennedd lle bo'n briodol.

Mae'n ceisio helpu pob athro/athrawes iaith i ddatblygu sgiliau dysgu iaith disgyblion (yn Saesneg a/neu Gymraeg) o ddechrau Cyfnod Allweddol 1 hyd at Gyfnod Allweddol 3. Mae hefyd yn ceisio adeiladu ar y sgiliau hyn i gefnogi dysgu iaith dramor fodern yng Nghyfnod Allweddol 3 er mwyn cynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio ieithoedd yn 14 oed a thu hwnt.

Canolbwyntir bob amser ar y modd y gall athrawon wneud cysylltiadau ar draws ieithoedd, adeiladu ar brofiadau ieithyddol eraill y disgyblion a'u dysgu blaenorol, a chefnogi cynnydd y disgyblion mewn dysgu iaith, pa iaith bynnag y bo.

Mae'r canllawiau'n cynnwys:

- arfer dda mewn addysgu a dysgu iaith
- sgiliau, cyd-destunau, gweithgareddau a chynnydd ar draws ieithoedd
- syniadau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth
- awgrymiadau ar gyfer cynllunio, gwerthuso, monitro
- rhestr o dermau iaith.

# Rhagarweiniad

Lansiwyd *Ieithoedd sy'n Cyfrif,* Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Ieithoedd Tramor Modern yn Ebrill 2002. Ei nod yw dathlu Cymru fel gwlad ddwyieithog, helpu ymdrin â'r nifer isel sy'n astudio ieithoedd yn 14 oed a thu hwnt, a chynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ieithoedd tramor modern (ITM) yn gyffredinol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru trwy ei Gynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru ddwyieithog *Iaith Pawb* hefyd yn ceisio annog twf yn yr iaith Gymraeg.

Fel rhan o'r strategaeth, comisiynwyd ACCAC i weithio gydag Estyn i

*'lunio canllawiau ar ddysgu iaith o Gyfnodau Allweddol 1 i 3. Bydd y canllawiau hyn yn sefydlu egwyddorion ac argymhellion sy'n gyffredin i Saesneg, Cymraeg ac ieithoedd tramor. Byddant yn helpu athrawon i adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd eisoes ac yn helpu i feithrin mwy o gydweithio rhwng adrannau Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern.'*

Yng Nghymru, mae disgyblion yn dechrau dysgu ieithoedd yn yr ysgol ar oedran gwahanol ac mewn cyfnodau datblygiad gwahanol. Yn Gymraeg ac yn Saesneg, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau Cyfnod Allweddol 1 gyda'r gallu i gyfathrebu ar lafar yn iaith y cartref. (Fodd bynnag, mae rhai disgyblion o gefndir cartrefi Saesneg yn dechrau mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg heb y gallu i siarad Cymraeg). Felly gall eu cyfathrebu llafar yn iaith eu cartref gefnogi cynnydd mewn sgiliau eraill. Fel arfer, bydd disgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion Saesneg yn dechrau dysgu Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 1. O fis Medi 2003 bydd rhai ysgolion cynradd hefyd yn cymryd rhan mewn prosiectau peilot Cyfnod Allweddol 2 ieithoedd tramor modern Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fodd bynnag, fel rheol mewn ITM, nid yw disgyblion yn dechrau dysgu iaith dramor tan Gyfnod Allweddol 3, ond erbyn y cyfnod hwnnw gallant eisoes ddarllen ac ysgrifennu yn eu dwy iaith arall.

Felly mae disgyblion yn cyrraedd yr ysgol gydag o leiaf un iaith a gallant hefyd fod yn rhugl mewn ieithoedd eraill eu cartref. Gall a dylai sgiliau llythrennedd ac iaith disgyblion o un iaith gael eu defnyddio i gefnogi codi safonau yn yr iaith arall. Dylai athrawon ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 3 hefyd adeiladu ar y sgiliau dysgu iaith hyn i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau yn yr iaith dramor.

**Pwrpas y canllawiau felly yw:**

- amlygu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau iaith ar draws ieithoedd a thros gyfnodau allweddol
- adnabod rhai o'r sgiliau sydd yn allweddol i ddysgu iaith, pa iaith bynnag y bo
- dangos sut y gellir gwneud cysylltiadau ar draws ieithoedd
- cynnig syniadau ymarferol ar gyfer addysgu a dysgu.

**Mae'r canllawiau yn cefnogi:**

- addysgu Saesneg, Cymraeg a Chymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 1, 2 a 3, gan ddangos sut y gall sgiliau cyffredin, terminoleg a rhai gweithgareddau a gydgynllunnir gefnogi cynnydd a diddordeb yn y naill iaith a'r llall
- addysgu ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 3, gan ddangos sut y gall adeiladu ar sgiliau a ddatblygwyd yn Saesneg a Chymraeg a rhai gweithgareddau ar y cyd gefnogi datblygiad iaith a chymhelliant
- llythrennedd ar draws y cwricwlwm drwy roi arweiniad ar fonitro cynnydd, hunanwerthusiad disgyblion a strategaethau ysgol gyfan.

**Hunanwerthusiad yr ysgol a'r adran**

O fewn y canllawiau ceir rhestr wirio i helpu athrawon, adrannau ac ysgolion unigol i werthuso ac adolygu eu harferion cyfredol, ac i gefnogi'r gwaith o gynllunio a gweithredu agweddau ar y canllawiau.

# Arfer dda mewn datblygu sgiliau iaith disgyblion

Mewn addysgu iaith a llythrennedd, gwelwyd arfer dda a all arwain at ddatblygiad iaith parhaol a chynnydd ar draws sgiliau.

Dylid annog disgyblion i gyfathrebu'n fanwl-gywir, gyda hyder, mwynhad a diddordeb mewn ystod gynyddol o gyd-destunau. Dylid rhoi cyfleoedd iddynt ddarllen, edrych a gwrando ar ystod eang o ddeunyddiau ac ymateb mewn gwahanol ffyrdd.

Yng Nghymru mae cyfleoedd hefyd i adeiladu ar brofiad dwy-ieithrwydd disgyblion a defnyddio'r sgiliau iaith hyn wrth ddysgu iaith dramor. Mae disgyblion nad yw'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt hefyd yn dod â sgiliau iaith i'r ystafell ddosbarth.

Fel arfer bydd sgiliau iaith yn cael eu hintegreiddio ar draws gweithgareddau gwahanol, ond mae'n ddefnyddiol adnabod y sgiliau ar wahân er mwyn sicrhau bod yr ystod o gyfleoedd yn cael ei darparu. Trwy ddatblygu'r sgiliau iaith a amlinellir isod, ar draws ieithoedd, gall profiadau disgyblion mewn un iaith gefnogi datblygu ail neu drydedd iaith.

## Datblygu sgiliau iaith

Mewn **llafaredd** (siarad a gwrando) dylai disgyblion:

- wrando ar fodel da o iaith lafar
- gwrando a gwylio'n ofalus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd dilys
- gwrando, siarad a chymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau gan gynnwys drama
- clywed a pherfformio ystod o rigymau, cerddi, cyflwyniadau
- addasu eu siarad i ystod eang o gyd-destunau
- defnyddio ynganiad a goslef gywir
- cynhyrchu ymatebion llafar estynedig, gan gynnwys ymatebion i gwestiynau, testunau a symbyliadau eraill.

Mewn **darllen** dylai disgyblion:

- ddatblygu ymwybyddiaeth o seiniau iaith lafar a sut y cynrychiolir hwy mewn ysgrifen
- rhoi sylw i'r ffordd y mae brawddegau'n cael eu strwythuro
- rhoi sylw i'r cyd-destun y rhoddir geiriau ynddynt
- datblygu darllen a deall a sgiliau darllen uwch ar draws ystod o wahanol fathau o destunau

- ymarfer darllen a thrafod testunau
- defnyddio sgiliau ymchwil a TGCh i ddatblygu annibyniaeth.

Mewn **ysgrifennu** dylai disgyblion:

- drefnu a strwythuro brawddegau yn ramadegol
- defnyddio atalnodi'n gywir, sillafu'n gywir a llawysgrifen ddarllenadwy
- defnyddio geiriadur, thesawrws neu restr termau a deunyddiau cyfeiriol eraill i'w helpu gyda'u hysgrifennu
- cynllunio eu hysgrifennu
- gwella eu sgiliau ysgrifennu trwy brawfddarllen ac ailddrafftio
- ysgrifennu'n aml ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd a dibenion
- ysgrifennu'n annibynnol
- ysgrifennu'n greadigol
- defnyddio TGCh i gefnogi'r uchod.

### Cwestiynau posibl ar gyfer adolygu a gwerthuso arfer

- Ydym ni'n cynnig y cyfleoedd a nodir yn y rhestr arfer dda?
- Oes sgiliau y mae angen eu datblygu ymhellach?
- Oes modd enwi gweithgareddau neu agweddau penodol ar waith sy'n cynnig y cyfleoedd hyn?
- Ydym ni'n cynnig cyfleoedd ar gyfer creadigrwydd ac annibyniaeth?
- Ydy'r cyfleoedd hyn yn amlwg yn ein cynllun gwaith?

## Datblygu sgiliau dysgu iaith ar gyfer iaith newydd

Yn ystod camau cynnar dysgu iaith newydd, bydd angen cefnogaeth a chyfleoedd ar y disgyblion i ddatblygu sgiliau dysgu iaith, a fydd hefyd yn cynnwys:

- addysgu disgyblion i wrando ac arbrofi gyda phatrymau sain newydd
- defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau gwrando i hyfforddi'r glust i seiniau iaith newydd

- sicrhau bod y disgyblion yn deall y berthynas rhwng y gair ysgrifenedig a system seiniau'r iaith newydd
- addysgu iaith y dosbarth i'r disgyblion er mwyn ateb eu hanghenion bob dydd
- addysgu strategaethau dysgu iaith fel sut i ddysgu iaith ar gof
- defnyddio dulliau aml-synhwyraidd (gweledol, clywedol a chinesthetig) i wella dysgu
- hyfforddi disgyblion i gofio geiriau newydd yn effeithiol
- cadarnhau geirfa a strwythurau newydd yn rheolaidd
- addysgu disgyblion sut i ddysgu a chofnodi eitemau iaith newydd
- rhoi cyfleoedd i ddefnyddio iaith a ddysgwyd eisoes mewn cyd-destunau gwahanol
- adeiladu ar ac atgyfnerthu gwybodaeth ieithyddol flaenorol a ddysgwyd mewn ieithoedd eraill
- cynyddu hyd y testunau y mae'r disgyblion yn eu clywed a'u darllen
- annog y disgyblion i gynhyrchu iaith fwy estynedig ac i roi mwy na'r ateb lleiaf posibl wrth siarad ac wrth ysgrifennu.

### Cwestiynau posibl ar gyfer adolygu a gwerthuso arfer

- Sut ydym ni'n paratoi disgyblion i ddysgu iaith newydd?
- Ydym ni'n adeiladu ar sgiliau dysgu iaith blaenorol a gwybodaeth ieithyddol flaenorol y disgyblion?
- Pa sgiliau allai fod angen i ni eu datblygu ymhellach?

## Tuag at ddwyieithrwydd a throsglwyddo o un iaith i'r llall

Y gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu mewn dwy iaith yw dwyieithrwydd. Os yw ysgol yn dysgu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg neu drwy gyfrwng y Saesneg, y nod yn y pen draw yw galluogi disgyblion i chwarae rhan gyflawn mewn cymdeithas ddwyieithog a defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg hyd eithaf eu gallu. Mae datganiad polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru *Dyfodol Dwyieithog* a'r cynllun gweithredu cenedlaethol *Iaith Pawb* yn amlinellu pwysigrwydd creu Cymru ddwyieithog ac mae gan ddisgyblion Cymru gyfle unigryw yn y DU i adeiladu ar y sgiliau dwyieithog hyn.

Mae papur trafod Estyn *Datblygu llythrennedd deuol* yn trafod sut y gall llythrennedd ddwbl gefnogi dysgu iaith a pharatoi disgyblion ar gyfer sefyllfaoedd lle y bydd efallai angen iddynt drosglwyddo o'r naill iaith i'r llall. Gall y trosglwyddo hyn o un iaith i'r llall gefnogi addysgu a dysgu mewn Cymraeg a Saesneg a hefyd ITM, drwy ddarparu cyfleoedd i wneud cysylltiadau clir ar draws ieithoedd ar bob lefel.

Er y bydd y pwyslais ym mhob math o ddysgu iaith ar ddefnyddio ac ymateb i'r iaith a addysgir, mae yna adegau pan all defnyddio dwy iaith o fewn un gweithgaredd gynnig profiadau ysgogol a gwerthfawr. Er enghraifft, gallai disgyblion ymateb yn Gymraeg neu ITM i ffilm neu raglen deledu y mae nhw wedi ei gwylio yn Saesneg, neu ymateb yn Saesneg i destunau mwy cymhleth neu ddilys yn Gymraeg neu'r ITM fel y bo'n briodol.

Fodd bynnag, wrth gynllunio gweithgareddau dwy-iaith, bydd angen i athrawon ystyried lefel iaith a sgiliau'r disgyblion yn yr iaith a addysgir. Bydd angen iddynt fod yn glir hefyd ynglŷn â chanlyniadau'r weithgaredd a sut y bydd yn cefnogi dysgu iaith disgyblion yn y ddwy iaith. Mae'r enghreifftiau o weithgareddau posib isod wedi'u targedu ar ystod o ddatblygiad iaith ac yn dangos cynnydd posib yn y ffordd y gallai disgyblion ddefnyddio dwy iaith.

## Enghreifftiau o weithgareddau posibl

Mewn gweithgareddau **llafaredd** (siarad a gwrando) gellir rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- wrando ar stori mewn un iaith ac ymateb mewn iaith arall
- defnyddio gwybodaeth bersonol neu ffeithiol a glywir yn y naill iaith i gyfleu'r hanfodion yn y llall
- edrych ar rywbeth mewn un iaith ac adrodd yn ôl mewn iaith arall
- crynhoi mewn un iaith wybodaeth a gyflwynir mewn iaith arall.

Mewn **darllen** gellir rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- ddarllen stori mewn un iaith ac ymateb mewn iaith arall
- darllen gwahanol fathau o destunau yn y ddwy iaith a'u cymharu, e.e. cyfarwyddiadau neu daflenni twristiaeth
- siarad am y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng iaith testunau yn y ddwy iaith
- defnyddio ffynonellau gwybodaeth yn y ddwy iaith a chrynhoi prif bwyntiau neu safbwyntiau, ar lafar neu'n ysgrifenedig
- darllen testun neu ran o destun mewn un iaith a chwblhau nifer o dasgau arno mewn iaith arall.

Mewn **ysgrifennu** gellir rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- ymateb yn syml mewn ysgrifen mewn un iaith i stori neu rywbeth a welsant neu a glywsant mewn iaith arall
- cyfathrebu gwybodaeth, a ddarllenwyd neu a glywyd, o'r naill iaith i'r llall mewn ysgrifen
- crynhoi gwybodaeth a dderbyniwyd mewn un iaith a'i chyflwyno'n gywir mewn ysgrifen mewn iaith arall.

### Cwestiynau posibl ar gyfer adolygu a gwerthuso arfer

- Ydy hi'n syniad da i ddatblygu rhai gweithgareddau mewn dwy iaith?
- Ydym ni'n gwneud hyn eisoes?
- Pa fathau o weithgareddau sy'n fwyaf priodol ar gyfer gwaith dysgu iaith ein disgyblion?
- Sut gallem ni ddatblygu'r rhain ymhellach?

# Sgiliau ar draws ieithoedd

Mae llawer o ofynion cyffredin i raglenni astudio y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Saesneg, Cymraeg, Cymraeg ail iaith ac ITM o ran disgwyliadau, cynnydd, sgiliau iaith a gweithgareddau iaith. Er bod man cychwyn y disgyblion i gyd yn wahanol, ac er bod y rhaglenni astudio yn cael eu haddysgu dros wahanol gyfnodau allweddol, mae llawer o gyfleoedd i atgyfnerthu sgiliau ar draws ieithoedd.

Gellir trosglwyddo llawer o'r sgiliau ar draws ieithoedd a gall adeiladu ar y rhain helpu datblygu gwybodaeth disgyblion am iaith a'u dealltwriaeth o sut mae ieithoedd yn gweithio. Mae'r adrannau isod yn enwi nodweddion cyffredin ac yn dangos sut y gall athrawon ac adrannau gydlynu profiad dysgu iaith disgyblion.

## Sgiliau cyffredin yn y rhaglenni astudio

### Cyfnod Allweddol 1

**Llafaredd (siarad a gwrando)**

- Yn Saesneg, Cymraeg, a Chymraeg ail iaith, pwysleisir gwrando a datblygu sgiliau gwrando'r disgyblion, annog y disgyblion i wrando'n ofalus ac ymateb yn briodol.
- Anogir y disgyblion i siarad â hyder, i'w mynegi eu hunain yn glir ac i feddwl am ynganu a goslefu. Pwysleisir confensiynau sgwrsio a chonfensiynau cymdeithasol, cyfarchion a ffurfio cydberthynas ar draws ieithoedd.
- Gellir chwarae gemau lle adwaenir seiniau a gemau gwrando fel 'Mae Seimon yn Dweud' yn Saesneg a Chymraeg, a chan ddefnyddio'r ddwy iaith hyd yn oed, i atgyfnerthu gwrando. Lle y bo'n briodol, gellir cymharu cyfarchion yn Saesneg, yn Gymraeg ac ieithoedd eraill.

**Darllen**

- Mewn Cymraeg a Saesneg, mae disgyblion yn datblygu sgiliau ffonig a dealltwriaeth ramadegol. Anogir hwy i ddarllen ar goedd ac i ddarllen eu hysgrifen eu hunain. Dechreuir datblygu sgiliau ymchwil drwy'r defnydd o TGCh a'r defnydd o eiriaduron. Yn achos dysgwyr Cymraeg ail iaith, datblygir sgiliau ffonig hefyd ac mae'r disgyblion yn dechrau darllen ar goedd a siarad am yr hyn a ddarllenwyd, er bod hyn yn debygol o fod yn fwy cyfyngedig nag yn Gymraeg a Saesneg.
- Hyd yn oed mor gynnar â hyn, lle y bo'n briodol, gellir gwneud cymariaethau rhwng ieithoedd a gellir tynnu sylw at y sgiliau tebyg sydd eu hangen. Weithiau gellir rhoi cyfleoedd i'r disgyblion symud rhwng ieithoedd drwy ddarganfod gwybodaeth neu ddarllen testun yn y naill iaith ac adrodd neu ymateb yn yr iaith arall.

**Ysgrifennu**

- Mae sgiliau cynllunio, drafftio a'r defnydd o TGCh yn gyffredin i Gymraeg a Saesneg. Gellir dechrau datblygu cyfleoedd ar gyfer annibyniaeth a chreadigrwydd yn y ddwy iaith, gan gynnwys chwarae ag iaith.
- Lle yr addysgir y ddwy iaith, gallai gweithgareddau hefyd gynnwys chwilio am debygrwydd a gwahaniaeth syml mewn ieithoedd, enwi rheolau a defnyddio gweithgareddau tebyg i atgyfnerthu sgiliau iaith fel gwirio sillafu a chreu rhestrau geiriau neu eirfâu personol.

### Cwestiynau posibl ar gyfer adolygu a gwerthuso arfer

- Ydym ni'n gwybod am ofynion tebyg ar draws Gorchmynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 1?
- Ydym ni'n gwneud unrhyw gysylltiadau?
- Lle y bo'n briodol, ydym ni'n cynllunio ar gyfer y cysylltiadau rhwng ieithoedd?
- A oes cysylltiadau anghynlluniedig y gallwn adeiladu arnynt, gan gynnwys cysylltiadau ag ieithoedd eraill y gallai disgyblion eu siarad?
- A oes cysylltiadau rhwng cynlluniau gwaith?
- Ydym ni'n atgyfnerthu sgiliau iaith yn Saesneg, Cymraeg neu'r ddwy iaith mewn meysydd eraill y cwricwlwm?

## Cyfnod Allweddol 2

**Llafaredd (siarad a gwrando)**

- Mewn Cymraeg, Cymraeg ail iaith a Saesneg, mae'r ystod o ddeunyddiau y mae'r disgyblion yn gwrando arnynt ac yn edrych arnynt yn dechrau ehangu. Mae gofyn i'r disgyblion ddechrau canolbwyntio ar agweddau penodol ac ymateb mewn modd priodol.
- Wrth siarad, mae disgyblion yn dechrau trefnu'r hyn y maen nhw'n ei ddweud at ddibenion gwahanol: drama, chwarae rôl, cyflwyno gwybodaeth a mynegi barn.
- Er mwyn atgyfnerthu gwrando ar draws ieithoedd, weithiau gall disgyblion wrando neu edrych ar symbyliad mewn un iaith ac ymateb mewn iaith arall, neu o symbyliad cyffredin, cymryd rhan mewn gweithgareddau dilynol yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gall defnyddio rhai themâu a gweithgareddau cyffredin neu

gysylltiedig yn Gymraeg ac yn Saesneg hefyd gefnogi'r sgil o strwythuro'r iaith lafar.

**Darllen**

- Mae sgiliau darllen yn cael eu datblygu er mwyn i'r disgyblion allu defnyddio'r hyn a ddarllenant i ddibenion gwahanol, yn ogystal â darllen er mwyn mwynhad. Er enghraifft, yn Gymraeg, Cymraeg ail iaith a Saesneg, mae gofyn i'r disgyblion ddod o hyd i wybodaeth, gwneud nodiadau, sgimio a sganio.
- Gall athrawon bwysleisio bod y disgyblion yn defnyddio'r un sgiliau fel bod dysgu yn y naill iaith yn cefnogi dysgu yn yr iaith arall. Gall defnyddio'r un confensiynau ar gyfer nodiadau, cofnodi gwybodaeth, siarad am yr hyn a ddarllenasant, ayb., helpu disgyblion i wneud y cysylltiad.

**Ysgrifennu**

- Bellach mae'r disgyblion yn ysgrifennu i wahanol ddibenion neu'n ymateb i ystod ehangach o symbyliadau. Mae pwyslais ar sillafu ac adeiladu cronfeydd o eiriau y gall y disgyblion eu defnyddio'n gywir.
- Gall defnyddio terminoleg gyffredin (gweler Atodiad A) a rhai gweithgareddau sy'n defnyddio Saesneg a Chymraeg helpu atgyfnerthu sgiliau ysgrifennu yn y ddwy iaith. Gall gweithgareddau eraill, er enghraifft dulliau cyffredin o gofnodi geiriau newydd, dysgu sillafiadau, defnyddio geiriaduron hefyd gefnogi sgiliau dysgu iaith disgyblion.

### Cwestiynau posibl ar gyfer adolygu a gwerthuso arfer

- Ydym ni'n gwybod am ofynion tebyg ar draws Gorchmynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 2?
- Ydym ni'n gwneud unrhyw gysylltiadau?
- Ydym ni'n cynllunio ar gyfer y cysylltiadau rhwng ieithoedd?
- Oes cysylltiadau anghynlluniedig y gallwn adeiladu arnynt, gan gynnwys cysylltiadau ag ieithoedd eraill y gallai'r disgyblion eu siarad?
- Oes cysylltiadau rhwng cynlluniau gwaith?
- Ydym ni'n adeiladu ar ddysgu iaith yng Nghyfnod Allweddol 1?

## Cyfnod Allweddol 3

Pan gyflwynir iaith dramor fodern, mae disgyblion Cyfnod Allweddol 3 yn astudio tair iaith o leiaf. Er bod disgyblion yn dechrau ym Mlwyddyn 7 ar gyfnod gwahanol o ddatblygiad ieithyddol yn Saesneg, Cymraeg neu Gymraeg ail iaith a'r iaith dramor, mae llawer yn gyffredin o hyd rhwng y sgiliau iaith a addysgir i'r disgyblion.

Fodd bynnag, yng Nghyfnod Allweddol 3, yn ogystal â'r cyfleoedd i'r holl athrawon bwysleisio cysylltiadau ac adeiladu ar sgiliau cyffredin ar draws ieithoedd, mae hefyd angen i athrawon adeiladu ar y sgiliau a enillwyd gan y disgyblion yn yr ysgol gynradd. Yn arbennig, dylai athrawon ITM ddefnyddio'r wybodaeth a enillodd y disgyblion drwy ddysgu Saesneg a Chymraeg neu Gymraeg ail iaith i gefnogi dysgu iaith newydd.

**Llafaredd (siarad a gwrando)**

- Mae'n rhaid i ddisgyblion ar draws ieithoedd wrando'n ofalus ar wahanol symbyliadau. Mae gofyn iddynt ymateb yn briodol a gwrando ac edrych am wybodaeth a diddordeb.
- Wrth siarad, mae pwyslais ar ddewis geiriau, ynganu a goslefu'n gywir. Mae gofyn i'r disgyblion ofyn ac ateb cwestiynau, mynegi barn a chyflwyno gwybodaeth.
- Yn Saesneg a Chymraeg mae disgyblion hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau drama, a gall athrawon Cymraeg ail iaith ac ITM ddefnyddio'r rhain hefyd i ehangu profiadau iaith y disgyblion a chreu cyfleoedd ar gyfer creadigrwydd.

**Darllen**

- Ym mhob iaith pwysleisir ystod eang o destunau, gan gynnwys TGCh a sgiliau sgimio a sganio a dod o hyd i wybodaeth.
- Yn Gymraeg a Saesneg mae gofyn astudio ystod o lenyddiaeth.
- Gall pob un o'r gweithgareddau darllen hyn gynnig cyfleoedd i adrannau wneud cysylltiadau, er enghraifft, drwy weithio ar themâu, pynciau neu fathau o destunau cysylltiedig.

**Ysgrifennu**

- Mae gofyn i'r disgyblion gynhyrchu gwahanol fathau o ysgrifennu, defnyddio TGCh, drafftio ac ailddrafftio a rhoi sylw i gywirdeb. Mae gofyn defnyddio iaith yn ddychmygus a chreadigol mewn ITM ac i ystod o ddibenion yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Gall pob iaith elwa o'r ystod hon ac mae'r gweithgareddau yn darparu llawer o gyfleoedd i gydweithio ar draws adrannau.

### Cwestiynau posibl ar gyfer adolygu a gwerthuso arfer

- Ydym ni'n gwybod am ofynion tebyg ar draws Gorchmynion y Cwricwlwm Cenedlaethol?
- Ydym ni'n gwneud unrhyw gysylltiadau?
- Ydym ni'n gwybod beth sy'n digwydd mewn adrannau eraill?
- Oes unrhyw gysylltiadau rhwng cynlluniau gwaith?
- Ydym ni'n cynllunio ar gyfer y cysylltiadau rhwng ieithoedd?
- A oes cysylltiadau anghynlluniedig y gallwn adeiladu arnynt, gan gynnwys cysylltiadau ag ieithoedd eraill y gallai'r disgyblion eu siarad?
- Ydym ni'n adeiladu ar ddysgu iaith yng Nghyfnod Allweddol 2?

## Nodweddion iaith

Mae strwythurau a nodweddion ieithoedd hefyd sy'n gyffredin i bob un o'r rhaglenni astudio. Gall athrawon adeiladu ar y rhain er mwyn i wybodaeth mewn un iaith gael ei throsglwyddo i gefnogi datblygiad gwybodaeth mewn ieithoedd eraill.

### Cyfnod Allweddol 1 – Saesneg, Cymraeg, a Chymraeg ail iaith

- y berthynas rhwng y gair argraffedig a phatrymau sain (ITM Cyfnod Allweddol 3)
- patrymau sillafu (ITM Cyfnod Allweddol 3)
- strwythur brawddegau (ITM Cyfnod Allweddol 3)
- terfyniadau berfol a chytundeb (ITM Cyfnod Allweddol 3)
- atalnodi syml
- llawysgrifen.

### Cyfnod Allweddol 2 – Saesneg, Cymraeg, a Chymraeg ail iaith

- tebygrwydd a gwahaniaeth rhwng ffurfiau llafar ac ysgrifenedig
- cysylltu brawddegau (ITM Cyfnod Allweddol 3)
- defnyddio paragraffau
- termau i drafod testun
- cystrawennau mwy cymhleth (ITM Cyfnod Allweddol 3)

- cysyniadau gramadegol ehangach, e.e. enw, rhagenw, cysyllteiriau, ansoddeiriau, adferfau, cenedl (ITM Cyfnod Allweddol 3).

### Cyfnod Allweddol 3 – Saesneg, Cymraeg, Cymraeg ail iaith ac ITM

- ffurfiau ac amserau berfol
- swyddogaethau gramadegol
- ystod eang o strwythurau a geirfa
- strwythur cymalau, brawddegau, ymadroddion
- cywair.

#### Cwestiynau posibl ar gyfer adolygu a gwerthuso arfer

- Ydym ni'n addysgu'r nodweddion a restrir yn benodol?
- Sut rydym yn eu haddysgu?
- Allwn ni wneud cysylltiadau ar draws ieithoedd yn y ffordd yr addysgwn hwy?
- Beth mae angen i ni ei wneud i wneud y cysylltiadau hyn?
- Sut gallwn fod yn sicr bod y disgyblion yn gwneud y cysylltiadau?

## Gweithgareddau a chyd-destunau

Ar draws y rhaglenni astudio ac ar draws y cyfnodau allweddol mae nifer o brofiadau a gweithgareddau yr addysgir yr iaith drwyddynt ac sydd yn gyffredin i bob iaith. Gall y rhain gynnwys cyfleoedd hefyd i'r disgyblion ddatblygu a chymhwyso'r gofynion cyffredin yn enwedig: y Cwricwlwm Cymreig, Sgiliau Technoleg Gwybodaeth, Sgiliau Creadigol ac, wrth gwrs, Sgiliau Cyfathrebu.

**Gweithgareddau** – dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion gymryd rhan mewn:

- chwarae rôl
- gwaith pâr
- trafodaethau grŵp
- drama
- darllen i bwrpas

- ymchwil annibynnol
- gwrando a gwylio ffocysedig
- ysgrifennu i wahanol ddibenion
- defnyddio TGCh i gefnogi dysgu iaith a datblygiad iaith
- defnyddio iaith yn greadigol
- naratifau
- barddoniaeth.

**Cyd-destunau** – dylai'r disgyblion brofi iaith mewn ystod o gyd-destunau:

- personol
- ffurfiol ac anffurfiol
- ffeithiol a dychmygol
- adlewyrchu eu diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill
- llenyddol ac anllenyddol
- cyfoes a hanesyddol.

### Cwestiynau posibl ar gyfer adolygu a gwerthuso arfer

- Ydym ni'n cynnig cyfleoedd i'r disgyblion gymryd rhan yn y gweithgareddau a restrir?
- Pa weithgareddau nad ydym yn eu defnyddio? Oes rheswm am hyn?
- Beth allem ni ei ddatblygu i ehangu profiad ein disgyblion o ddysgu iaith?
- Ydy'r cyd-destunau a ddefnyddiwn yn cynnig diddordeb a symbyliad priodol i oed a datblygiad ein disgyblion?
- Sut allem ni gysylltu'r modd y cyflwynwn y gofynion cyffredin ar draws ieithoedd?
- Oes cyfleoedd ar gyfer cynllunio ar draws ieithoedd?

# Gwneud cysylltiadau – cynllunio a gweithgareddau ystafell ddosbarth

Mae gwahanol lefelau o wneud cysylltiadau rhwng addysgu Saesneg, Cymraeg neu Gymraeg ail iaith ac ITM. Fodd bynnag, bydd dulliau tebyg neu gyffredin o addysgu iaith yn golygu na fydd y disgyblion yn cael profiad iaith tameidiog a bydd yn gwella eu hyder wrth ddefnyddio iaith.

Bydd y cysylltiadau y gellir eu gwneud yn amrywio yn y gwahanol gyfnodau allweddol a bydd y modd y cynllunnir hwy'n dibynnu ar y nifer o athrawon ac ieithoedd dan sylw. I ddechrau, mae'n bosib y bydd proses syml o adnabod nodweddion, gan arwain at ddulliau a gweithgareddau cynlluniedig a integredig eraill. Fodd bynnag, nid yw cynllunio ar gyfer dulliau integredig neu gyfunedig yn golygu y bydd disgyblion yn cymryd rhan yn union yr un fath o weithgareddau ar yr un pryd yn eu holl waith iaith. Mae sicrhau amrywiaeth tra'n gwneud cysylltiadau hefyd yn bwysig.

Bwriedir i'r syniadau a amlinellir isod gefnogi athrawon wrth gynllunio dulliau cyffredin, a dilynir hwy gan syniadau ymarferol y gellir eu defnyddio neu eu haddasu yn yr ystafell ddosbarth. Bydd rhai ohonynt yn fwy defnyddiol ar gyfer cyfnod allweddol penodol tra bydd modd defnyddio eraill ar draws cyfnodau allweddol ar wahanol lefelau.

Mae Atodiad A 'Defnyddio terminoleg gyffredin' yn darparu rhestr o dermau iaith i helpu athrawon i bwysleisio a defnyddio termau gramadeg, sillafu ac atalnodi cyffredin gyda disgyblion ar draws ieithoedd. Mae'r diffiniadau yn y rhestr yn cyfateb yn fras â'r rheiny a ddefnyddir yn neunyddiau y *National Literacy Strategy* yr Adran Addysg a Sgiliau, a'r rheiny a ddefnyddir ac yr addasir gan nifer o ysgolion yng Nghymru. Cawsant eu drafftio i adlewyrchu'r derminoleg a ddefnyddir ar draws Saesneg, Cymraeg ac ieithoedd tramor modern.

## Cysylltiadau cychwynnol

### Cynllunio

Mae'r rhestr isod yn rhoi enghreifftiau o ddulliau ar gyfer gwneud cysylltiadau cychwynnol ar draws ieithoedd. Nid oes raid ymdrin â phob cysylltiad posibl. Mae'n bwysicach chwilio am y rhai a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar waith dysgu iaith y disgyblion, a chynllunio sut y gellir datblygu cysylltiadau eraill fel sy'n briodol. Ar y lefel hon, adnabod gweithgareddau cyffredin, pwysleisio cysylltiadau â'r disgyblion, gwneud cymariaethau a defnyddio terminoleg gyffredin (gweler Atodiad A) yw'r mathau o gysylltiad y gellir eu gwneud. I ddechrau gall athrawon:

- ganfod arfer gyffredin drwy edrych ar gynlluniau gwaith ar draws ieithoedd fel bod cysylltiadau a chyfeiriadau atodol yn cael eu gwneud â'r disgyblion
- defnyddio'r canllawiau i ganfod y sgiliau, nodweddion ieithyddol, gweithgareddau a chyd-destunau lle gall cysylltiadau gael eu gwneud

- sefydlu terminoleg gytunedig a chyffredin lle bo'n briodol (gweler Atodiad A)
- sefydlu fformat cyffredin ar gyfer gweithgareddau cyffredin fel logiau sillafu, cymryd nodiadau a chadw cofnodion o ddarllen annibynnol
- sefydlu llinell amser ar gyfer addysgu sgiliau iaith a chyflwyno gweithgareddau fel bod cyflwyniadau cychwynnol mewn un iaith yn gallu adeiladu ar wybodaeth a enillwyd eisoes mewn iaith arall. Mae hyn yn cynnwys sgiliau a gweithgareddau o gyfnodau allweddol cynharach.

### Gweithgareddau ystafell ddosbarth

Gellir gwneud cysylltiadau yn yr ystafell ddosbarth drwy:

- ddefnyddio fformat cyffredin ar draws ieithoedd ar gyfer ysgrifennu dan arweiniad, ailddrafftio, byrddau stori, fframiau ysgrifennu ac ysgrifennu llythyrau
- cadw logiau sillafu neu lunio eich rhestr geiriau eich hun yn yr un ffordd ar draws ieithoedd, a defnyddio codau lliw hyd yn oed ar gyfer cenedl, rhannau ymadrodd ayb.
- sefydlu geiriau allweddol ar draws ieithoedd a'u defnyddio ar ddechrau gwersi fel y bo'n briodol
- cysylltu iaith ag arwyddion a symbolau bob dydd ar draws ieithoedd
- gwneud arddangosfeydd wal i ddangos geiriau allweddol fel rhediadau, termau gramadegol, atalnodi, geiriau cwestiwn, ayb. (gweler Atodiad A)
- pwysleisio gwneud nodiadau, defnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer ymchwil, dulliau ymchwil eraill a sgiliau'r geiriadur ar draws ieithoedd yn yr un ffordd
- defnyddio dull cyffredin o gadw cofnodion ac adolygiadau ar gyfer darllen annibynnol
- defnyddio strategaethau cyffredin ar gyfer cofio sillafiadau, e.e. edrych, dweud, cuddio, ysgrifennu, gwirio, ar draws ieithoedd
- canfod geiriau cytras a gwneud cymariaethau ar draws ieithoedd i fod yn rhan sefydlog o ddysgu iaith a hybu trafodaeth am ffurf a swyddogaeth iaith
- sefydlu rhestr o gemau geiriau y gellir eu defnyddio ar draws ieithoedd.

## Y camau nesaf

### Cynllunio

Gellir cynllunio gweithgareddau mwy estynedig a fyddai'n briodol ar draws ieithoedd a all gynnig symbyliad a diddordeb yn ogystal â chefnogi disgyblion wrth iddynt wneud cysylltiadau. Mae'r gweithgareddau hyn yn debygol o fod yn rhai tymor byr

ond byddant yn galluogi'r disgyblion i wneud cysylltiadau clir ar draws ieithoedd. Gallai cyd-gynllunio olygu bod athrawon yn gwneud y canlynol:

- adolygu cynlluniau gwaith i gytuno ar amseru priodol ar gyfer gweithgaredd penodol
- gweld pa agweddau ar y rhaglenni astudio a ymdrinnir a'r lefelau cyrhaeddiad posibl
- cytuno ar adnoddau, themâu, gweithgareddau a sut i'w cyflwyno
- cytuno ar ganlyniadau, e.e. cyflwyniad, arddangosiad, gwasanaeth
- gwylio athrawon eraill neu gyd-addysgu fel y bo'n briodol
- adolygu a phenderfynu a ddylid ailadrodd gweithgaredd gyda grwpiau eraill neu sut i gynllunio gweithgareddau cysylltiedig eraill.

## Gweithgareddau ystafell ddosbarth

Mae'r gweithgareddau canlynol yn enghreifftiau o'r math o weithgareddau ystafell ddosbarth y gellir eu cynllunio ar draws ieithoedd i alluogi disgyblion i wneud cysylltiadau ar draws ieithoedd. Gellir eu gwneud mewn un wers neu dros gyfres o wersi.

- Mae *canigau, englynion, caligramau, haicw, rapiau a cherddi siâp* i gyd yn ffyrdd creadigol a mwy anarferol o ddefnyddio iaith a chwarae gydag iaith. Gall cymryd un o'r ffurfiau iaith hyn a'i defnyddio ar draws ieithoedd helpu disgyblion i wneud cysylltiadau a gellir eu defnyddio i gyd ar wahanol adegau yn ystod datblygiad iaith. Gall y canlyniad fod yn un llafar, ysgrifenedig neu'r ddau. Gall y disgyblion wneud arddangosfeydd amlieithog neu gymryd rhan mewn perfformiadau neu recordiadau amlieithog. Gellir defnyddio gweithgareddau fel hyn hefyd ar gyfer celf, cerddoriaeth a drama.
- Gall ymchwilio i bwnc arbennig mewn mwy nag un iaith arwain at wahanol ganlyniadau mewn gwahanol ieithoedd gan ddibynnu ar ba gam iaith mae'r disgyblion wedi ei gyrraedd. Gellir defnyddio pynciau sydd o ddiddordeb uniongyrchol fel yr ardal leol, cerddoriaeth, dillad neu chwaraeon ar yr un pryd ar draws ieithoedd. Gallai ymchwil yn iaith y cartref fod yn eithaf cymhleth, er enghraifft yn achos yr ardal leol gellid edrych ar agweddau hanesyddol neu ddaearyddol. Gyda iaith mwy newydd, gallai ymchwil gynnwys arolwg syml am hoffterau a chas bethau neu ba mor aml y defnyddir cyfleusterau.
- Gellir gwneud cyflwyniadau ar bwnc/thema arbennig mewn mwy nag un iaith ar wahanol lefelau hefyd. Gallai'r gweithgaredd hwn ddilyn tasg ymchwilio neu gyflwyniad sydd yn fwy uniongyrchol ddiddorol fel y teulu, hobi, yr ysgol neu rywbeth mae'r disgyblion wedi ei weld neu ei ddarllen.
- Cynnal arolwg mewn un iaith a dadansoddi a/neu ddatblygu'r canlyniadau mewn iaith arall. Er enghraifft, mewn ail iaith, gallai disgyblion gynnal arolwg am bwy sy'n gwneud pa weithgareddau yn y cartref a gellir dadansoddi'r canlyniadau yn nhermau rhyw a stereoteipiau yn iaith y cartref.

- Dewis pwnc am wythnos a chynllunio gweithgareddau mewn gwahanol ieithoedd i ymdrin â'r pwnc. Gallai'r pynciau ymwneud â dathliadau, digwyddiadau lleol neu genedlaethol neu achlysuron unigol eraill.

## Datblygu cysylltiadau mwy integredig

### Cynllunio

Mae gwneud cysylltiadau ar y lefel hon yn fwy hirdymor. Mae'n debygol o gynnwys mathau o gysylltiadau a awgrymwyd eisoes, ond bellach cynllunnir ar eu cyfer dros gyfnod o flwyddyn neu drwy gydol y cyfnod allweddol. Bydd yna hefyd rai gweithgareddau sydd yn brojectau iaith hirdymor ac y gellir eu defnyddio mewn gwahanol ffyrdd gan ddatblygu gwahanol sgiliau, ond mae'n bwysig cadw amrywiaeth yn y gwahanol ieithoedd hefyd.

Wrth gynllunio ar gyfer y math hwn o batrwm gweithredu, gallai athrawon ystyried y canlynol:

- canfod cysylltiadau ac addasu cynlluniau gwaith i gynllunio ar eu cyfer
- datblygu polisïau cyffredin ar draws ieithoedd, e.e. marcio, cynllunio gwersi
- cynnwys gweithgareddau a chyd-destunau tymor byr a sicrhau bod cydbwysedd ar draws ieithoedd
- enwi a chytuno ar brosiectau mwy hirdymor a gynhwysir mewn cynlluniau gwaith a sicrhau eu bod yn ymdrin â'r Cwricwlwm Cenedlaethol
- canfod cyfleoedd asesu a chynnydd ar draws ieithoedd.

### Gweithgareddau ystafell ddosbarth

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o brosiectau mwy hirdymor i ddatblygu sgiliau iaith ar draws ieithoedd. Gellir defnyddio dulliau tebyg ar gyfer nifer o weithgareddau a chyd-destunau:

- Mae'r cofiant a/neu'r hunangofiant yn thema y gellir ei datblygu ar wahanol lefelau ar draws ieithoedd a chyfnodau allweddol. Gan ddibynnu ar ba gam y cyrhaeddwyd wrth ddysgu iaith, gall thema gynnwys gwrando, cynnal cyfweliadau, gwneud cyflwyniadau, darllen, adolygu ac wrth gwrs ysgrifennu. Yng Nghyfnodau Allweddol 1 a 2, gellid ei gysylltu â rhywun enwog mewn hanes y mae'r disgyblion yn ei (h)astudio. Hyd yn oed wrth ddysgu iaith newydd un o'r pethau cyntaf y mae'r disgyblion yn ei ddysgu yw siarad amdanynt eu hunain ac yn nes ymlaen gall fod yn ffordd o siarad am y gorffennol.
- Mae storïau tylwyth teg, mythau a chwedlau yn feysydd y gellir eu hastudio ar draws ieithoedd ac ar wahanol lefelau. Mae'n faes y mae disgyblion iau yn gyfarwydd ag ef ers yn ifanc, mae ganddo gysylltiadau diwylliannol a hanesyddol cryf ac mae'n dal i fod yn faes y gellir ei ddefnyddio gyda disgyblion hŷn. Gellir

datblygu'r holl sgiliau iaith, ac mae cyfleoedd ar gyfer ymchwil, cyflwyno, drama, ysgrifennu creadigol a gwahanol ffurfiau llenyddol. Gall athrawon ITM ddefnyddio'r maes i ymarfer disgrifio, dilyniannu, cysylltiadau diwylliannol a chymariaethau gyda gwlad yr iaith darged.

- Ar gyfer disgyblion hŷn yng Nghyfnod Allweddol 3, mae'r byd gwaith yn arbennig o berthnasol wrth iddynt gyrraedd yr oed lle mae gofyn iddynt wneud dewisiadau ac mae'n faes lle gellir gwneud mwy o waith ffeithiol. Ar draws ieithoedd gellir defnyddio gwahanol fathau o iaith mewn hysbysebion, llythyrau cais, cyfweliadau, arolygon, ayb. Gellir defnyddio materion fel diweithdra a chyfleoedd gwaith, yn lleol ac mewn mannau eraill yng Nghymru ac Ewrop, drwy ymchwil a darllen y wasg. Gellir cyflwyno'r amser dyfodol mewn ITM yng nghyd-destun cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Dyma feysydd eraill y gellir eu datblygu fel prosiectau mwy hirdymor mewn ffordd debyg:

- cynllunio a gwneud fideo amlieithog am yr ysgol neu'r ardal
- archwilio iaith taflenni a chyhoeddusrwydd a chael y disgyblion i gynhyrchu rhai, gan ddefnyddio TGCh a chynhyrchu fersiynau dwyieithog
- dyddiaduron
- defnyddio nodweddion iaith penodol fel iaith cyfarwyddiadau
- astudio ffilm, adolygu ffilmiau, creu posteri, cymharu adolygiadau mewn gwahanol ieithoedd (mae gan Harry Potter safwe mewn nifer o ieithoedd)
- y newyddion a'r cyfryngau.

### Cwestiynau posibl ar gyfer adolygu a gwerthuso arfer

- Sut gallem ni ddechrau gwneud cysylltiadau rhwng ieithoedd?
- Ydym ni eisoes yn defnyddio unrhyw weithgareddau a awgrymwyd?
- Ydym ni'n cynllunio gweithgareddau priodol i atgyfnerthu dysgu iaith i ddisgyblion llai galluog ac ymestyn disgyblion mwy galluog?
- Ar ba lefel allwn ni ddatblygu neu gynllunio ar gyfer cysylltiadau?
- Pa weithgareddau allem ni eu haddasu'n hawdd er mwyn gwneud rhai cysylltiadau cychwynnol?
- Pa feysydd fyddem ni'n dewis eu datblygu ymhellach?
- Beth yw ein camau nesaf i weithredu unrhyw awgrymiadau?

# Ymwybyddiaeth iaith

Mae'r adran hon yn amlinellu rhai gweithgareddau ymwybyddiaeth iaith a all fod yn ffordd arall o wneud cysylltiadau, cynyddu ymwybyddiaeth disgyblion o ieithoedd heblaw'r rheiny sydd yn rhan o'u profiad uniongyrchol, a rhoi arwyddocâd mwy byd-eang i ieithoedd.

Gall rhaglen gynlluniedig ar gyfer ymwybyddiaeth iaith wella ymwybyddiaeth y disgyblion o sut y cychwynnodd iaith, sut mae ieithoedd yn gweithio a phwysleisio nodweddion cyffredin ar draws ystod eang o ieithoedd. Gall gweithgareddau ymwybyddiaeth iaith hefyd ddod â chyfleoedd i ddathlu ieithoedd eraill y daw'r disgyblion â hwy i'r ystafell ddosbarth ar wahân i Saesneg, Cymraeg neu'r ieithoedd Ewropeaidd yr arferir eu haddysgu. Gallant hefyd helpu codi statws yr ieithoedd hyn a'u siaradwyr.

Gellir cefnogi'r gweithgareddau a amlinellir isod mewn unrhyw gyd-destun dysgu iaith. Gall rhai gweithgareddau fod yn atodol neu, yn fwy priodol yng Nghyfnodau Allweddol 1 a 2 gallant fod yn rhan o drefn ddyddiol yr ystafell ddosbarth i'r disgyblion. Gellir cynllunio gweithgareddau eraill fel rhan o brofiad iaith cyffredinol y disgyblion dros gyfnod o amser neu gallant fod yn brofiad unigol un diwrnod, er enghraifft, dathlu Diwrnod Ewropeaidd Ieithoedd neu Neges Ewyllys Da. Ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol ar draws cyfnodau allweddol, gall nifer o'r gweithgareddau hyn gefnogi datblygiad eu sgiliau cyfathrebu a darparu cyd-destun ehangach i ddatblygu eu profiad iaith.

## Gweithgareddau ystafell ddosbarth

Mae'r canlynol yn debygol o fod yn fwy priodol yng Nghyfnodau Allweddol 1 a 2:

- ateb y gofrestr mewn gwahanol ieithoedd, defnyddio cyfarchion o bob rhan o'r byd er enghraifft. Gall athrawon ddechrau drwy gyflwyno dwy neu dair o ieithoedd adnabyddus, e.e. *Bonjour, Guten Tag, Hola* a gadael i'r disgyblion ymarfer mewn parau. Unwaith y bydd gan y disgyblion feistrolaeth ar ddwy neu dair o ieithoedd yn ogystal â Saesneg a Chymraeg, gallant ddewis ym mha iaith y maent am ateb y gofrestr. Yna gall y disgyblion ddod o hyd i ragor o gyfarchion drwy holi'r teulu a chyfeillion ac ehangu *repertoire* y dosbarth yn raddol
- cymharu enwau'r disgyblion ar draws ieithoedd i ddarganfod tebygrwydd
- gwneud celfwaith neu arddangosfeydd gan ddefnyddio ieithoedd â sgriptiau eraill, e.e. posteri croeso
- gwneud cardiau cyfarch, e.e. cardiau Nadolig, mewn ieithoedd gwahanol
- dysgu am, a gwneud bwyd o wledydd gwahanol a dysgu'r enwau yn yr iaith briodol
- darganfod pa ieithoedd a siaredir mewn gwahanol wledydd, faint o bobl sy'n siarad gwahanol ieithoedd a chyflwyno gwybodaeth ar ffurf graffiau neu siartiau

- sefydlu cornel ieithoedd yn yr ystafell ddosbarth gyda gweithgareddau ac ieithoedd amrywiol a chyfleoedd i'r disgyblion wneud eu cyfraniadau eu hunain
- cyflwyno cerddoriaeth a chaneuon o wledydd eraill mewn ieithoedd eraill
- cynnal gwasanaethau i ddathlu ieithoedd gwahanol, fel Neges Ewyllys Da, gyda disgyblion yn arddangos iaith, caneuon, rhigymau a gwaith celf
- dysgu cyfrif i ddeg mewn ieithoedd gwahanol
- cymharu rhifau, dyddiau, misoedd y flwyddyn mewn gwahanol ieithoedd a gwneud calendr amlieithog
- edrych ar darddiad geiriau, e.e. dyddiau'r wythnos neu eiriau benthyg o ieithoedd eraill
- dysgu am wahanol ffyrdd o gyfathrebu, gan gynnwys arwyddiaith, pictogramau a hieroglyffeg
- dyfeisio iaith a sefydlu rheolau gramadegol hefyd
- sefydlu man adnoddau iaith yn y llyfrgell neu ganolfan adnoddau, gan gynnwys geiriaduron lluniau, llyfrau am ieithoedd, storïau mewn ieithoedd eraill.

Byddai'r canlynol yn briodol ar gyfer pob cyfnod allweddol:

- sefydlu cysylltiadau e-bost gydag ysgolion mewn gwledydd eraill
- gwahodd siaradwyr ieithoedd eraill i'r ysgol i roi gwersi enghreifftiol mewn ieithoedd eraill
- cynllunio gweithgareddau ysgol gyfan penodol i ddathlu ieithoedd.

### Cwestiynau posibl ar gyfer adolygu a gwerthuso arfer

- Ydym ni eisoes yn darparu cyfleoedd ar gyfer ymwybyddiaeth iaith?
- Pa ieithoedd neu adnoddau iaith sydd eisoes ar gael?
- Beth hoffem ni eu datblygu ymhellach i gynyddu ymwybyddiaeth disgyblion o ieithoedd a diwylliannau ieithyddol eraill?

# Cynnydd mewn dysgu iaith

Mae nodweddion allweddol sydd yn dangos cynnydd mewn dysgu a datblygu iaith ac sydd yn gyffredin i bob iaith. Mae gan sgiliau cyfathrebu cynnar nifer o nodweddion cyffredin ar draws ieithoedd. Wrth i ddisgyblion ddysgu, mewn siarad ac ysgrifennu maent yn dechrau cynhyrchu darnau hwy o iaith, gyda strwythurau mwy cymhleth ac amrywiol ac mewn ystod o gyd-destunau ehangach. Deuant yn fwy sensitif i gywair a chynulleidfa ac maent yn amrywio eu hymatebion yn unol â hyn. Mewn gwrando, gwylio a darllen mae dysgwyr yn gallu delio ag ystod hwy ac ehangach o symbyliadau ac ymateb mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys mynegi barn.

Mae disgyblion, fodd bynnag, yn dechrau dysgu ieithoedd yn yr ysgol ar oedrannau gwahanol, ar adegau gwahanol yn natblygiad eu sgiliau ieithyddol ac o fewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol. Er enghraifft, yng Nghyfnod Allweddol 1, bydd sgiliau llafar disgyblion yn Saesneg yn cefnogi cynnydd mewn sgiliau eraill. Mae'n bosibl na fydd Cymraeg yn iaith y cartref i ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 1, ond byddant yn defnyddio Cymraeg ar gyfer eu holl brofiadau ysgol. Bydd gan ddisgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 1 sgiliau llafar mwy datblygedig yn Saesneg nag yn Gymraeg. Mewn ITM, gall disgyblion sy'n dechrau dysgu iaith dramor yng Nghyfnod Allweddol 3 ddarllen ac ysgrifennu yn Saesneg ac yn Gymraeg eisoes. Hefyd ni fydd Saesneg neu Gymraeg yn iaith y cartref i rai disgyblion sy'n dechrau ysgol, neu gall fod anghenion ychwanegol gan rai disgyblion yng nghyd-destun datblygiad iaith, a bydd eu cynnydd yn dra gwahanol mewn ieithoedd.

Mae'r targedau cyrhaeddiad a'r disgrifiadau lefel yn cydnabod y gwahanol fannau cychwyn hyn. Yn Saesneg a Chymraeg er enghraifft, (er bod rhai disgyblion yn dechrau heb unrhyw Gymraeg o gwbl mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg), mae'r disgrifiadau lefel cynnar ar gyfer Llafaredd yn cymryd yn ganiataol bod disgyblion yn dechrau dysgu iaith gyda rhai sgiliau siarad a gwrando. Mewn Cymraeg ail iaith, mae'r disgrifiadau lefel cynnar ar gyfer Llafaredd yn cydnabod bod disgyblion yn dysgu iaith newydd mewn cyd-destun Saesneg ac mae cynnydd yn arafach. Fodd bynnag, ar draws y tri Gorchymyn hyn, mae'r disgrifiadau lefel cynnar ar gyfer Darllen ac Ysgrifennu yn debyg, oherwydd bydd pob disgybl yn dechrau ar lefel o ddatblygiad tebyg. Mewn ITM, mae'r lefel cyrhaeddiad ddisgwyliedig ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 yr un fath â phynciau eraill, er gwaetha'r ffaith bod y disgyblion ond yn dechrau astudio iaith dramor yn 11 oed. Felly mae'r disgrifiadau lefel cynnar ar draws sgiliau yn cefnogi cynnydd cyflymach trwy'r lefelau is. Mae'r disgrifiadau lefel ar gyfer ITM hefyd yn cydnabod bod disgyblion eisoes wedi datblygu rhai sgiliau iaith trwy iaith y cartref neu'r ail iaith a gallant, er enghraifft, ysgrifennu llythyron, defnyddio atalnodi ac ati.

Serch hynny, mae'r targedau cyrhaeddiad yr un fath ar draws Cymraeg, Saesneg a Chymraeg ail iaith ac maent yn debyg iawn ar gyfer ITM (rhennir Llafaredd yn ddau darged cyrhaeddiad; Gwrando a Siarad). Ceir nodweddion cynnydd sy'n gyffredin i bob iaith ac yn y ffordd y cynllunnir ac y mesurir cynnydd, a gall athrawon adeiladu ar gynnydd a chyrhaeddiad blaenorol mewn un iaith i gefnogi dysgu iaith arall. Gall athrawon fapio cynnydd disgyblion yn unigol neu fesul grŵp ar draws ieithoedd.

Mae'r targedau cyrhaeddiad yn cael eu mapio ar draws y gorchmynion iaith o Lefelau 1–7 yn Atodiad B er mwyn i athrawon allu cymharu cynnydd a chynllunio ar gyfer cynnydd ar draws ieithoedd.

Mae Atodiad C hefyd yn cynnig arweiniad i athrawon ITM ar gynnydd mewn gramadeg a sgiliau yng Nghyfnod Allweddol 3.

### Cwestiynau posibl ar gyfer adolygu a gwerthuso arfer

- Ydym ni'n cynllunio ar gyfer cynnydd gan ystyried sgiliau iaith blaenorol y disgyblion?
- Ydym ni'n ymwybodol o gynnydd ein disgyblion mewn ieithoedd eraill?
- Ydym ni'n defnyddio'r wybodaeth honno i gynllunio'r addysgu a'r dysgu yn ein hiaith ein hunain?
- Sut gallwn ni ddefnyddio'r 'map' targed cyrhaeddiad/disgrifiad lefel i'n helpu? (Atodiad B)

# Monitro a gwerthuso

Mae'r adran olaf hon yn edrych ar sut y gall disgyblion, athrawon, adrannau ac ysgolion cyfan werthuso a yw gwneud cysylltiadau ar draws dysgu iaith yn cael effaith, a pha oblygiadau sydd i'r ysgol gyfan?

## Disgyblion

Mae'n bwysig fod disgyblion yn ymwybodol o'r cysylltiadau ar draws ieithoedd a sut y gallant gefnogi dysgu iaith. Dylai hyder yn eu sgiliau iaith gynyddu yn sgîl cael profiad ieithyddol cyfunol lle atgyfnerthir sgiliau cyffredin a lle gallant weld sut y mae eu gwybodaeth flaenorol yn cael ei ddefnyddio ar draws ieithoedd. Gall disgyblion fonitro eu profiadau a'u cynnydd a gall unrhyw ddeunyddiau asesu disgyblion hefyd gynorthwyo gwaith cynllunio athrawon yn y dyfodol.

Gall disgyblion fod yn ymwybodol o'u cynnydd eu hunain ar draws ieithoedd mewn amryw o ffyrdd.

- Dylai disgyblion gymryd rhan wrth wneud cysylltiadau ar draws ieithoedd er mwyn iddynt allu cydnabod sgiliau a chysyniadau yn annibynnol eu hunain.
- Gall disgyblion olrhain eu profiad iaith eu hunain a monitro eu cynnydd a'u cyflawniadau ar draws ieithoedd. Mae CILT (Centre for Information on Language Teaching and Research) wedi datblygu'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd (www.nacell.org.uk/elp.htm), a gymeradwyir gan Gyngor Ewrop, i ddisgyblion iau i'r pwrpas hwn. Gall disgyblion ddefnyddio'r portffolio i fapio eu profiad a dangos tystiolaeth o'u cyrhaeddiad tra buont yn dysgu ieithoedd.
- Yn hytrach gall athrawon wneud cofnodion hunan-asesu syml i'r disgyblion sy'n addas i'w sefyllfa arbennig hwy. Er enghraifft, gall y disgyblion ddweud i ba bwrpas y maent yn defnyddio gwahanol ieithoedd, pa brofiadau a gawsant mewn gwahanol ieithoedd a pha sgiliau y maent wedi eu datblygu.
- Gall dewis sgiliau a gwneud rhestr wirio i'r disgyblion, e.e. taflen 'Dwi'n gallu …' eu helpu i weld beth maent yn gallu ei wneud a bod y sgiliau dysgu iaith mewn gwahanol ieithoedd yn debyg yn aml.
- Gall y disgyblion gadw portffolio o'u gwaith gorau mewn ieithoedd i ddangos eu cyrhaeddiad ar draws yr ieithoedd y maent yn eu dysgu.
- Gall disgyblion hŷn gadw eu rhestr wirio gramadeg eu hunain ar draws ieithoedd.

## Athrawon

Gall athrawon olrhain y dull cydweithredol hwn o ddysgu iaith a gwerthuso eu heffeithiolrwydd mewn nifer o ffyrdd.

- Trwy gadw'r cysylltiadau ar fynd a dangos ymrwymiad i brofiad dysgu iaith a rennir ar gyfer eu disgyblion, gall athrawon ddatblygu syniadau pellach ac adolygu eu strategaethau cyfredol.

- Trwy neilltuo amser, mewn cyfarfodydd er enghraifft, gall athrawon ac adrannau werthuso ac adolygu dulliau a rennir.
- Dylai athrawon rannu arfer dda ar draws ieithoedd, gan gynnwys gwylio athrawon iaith eraill lle y bo'n bosibl, er mwyn cefnogi datblygiad cysylltiadau ar draws addysgu a dysgu ieithoedd.
- Trwy wylio disgyblion ac ansawdd yr iaith a gynhyrchant, gall athrawon adolygu'r cwestiwn a yw dull a rennir wedi gwella cymhelliant a diddordeb y disgyblion.
- Trwy ddatblygu dull cyffredin ar gyfer marcio ac asesu, bydd gan athrawon sail gadarn ar gyfer cymharu cyrhaeddiad eu disgyblion ar draws ieithoedd.
- Trwy ddatblygu dulliau cyffredin ar gyfer cyfraniad y disgyblion i'w hasesiad iaith, gall athrawon wella ymwybyddiaeth disgyblion o beth yw cynnydd mewn dysgu iaith a sut y gallant wella eu sgiliau iaith.
- Trwy sefydlu ffyrdd o gofnodi cyrhaeddiad a gwybodaeth ieithyddol flaenorol disgyblion – pa brofiadau a gawsant, beth fedrant ei wneud – gall athrawon gynllunio o un cyfnod allweddol i'r llall ac o'r naill flwyddyn i'r llall ac ar draws ieithoedd.

## Ysgol gyfan

Os yw athrawon ac adrannau yn gweithio gyda'i gilydd i wella sgiliau iaith disgyblion, mae hyn yn sicr o gael effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion mewn meysydd cwricwlaidd eraill. Er enghraifft, os yw athrawon yn defnyddio dulliau cyffredin ar gyfer ailddrafftio, atalnodi, sgiliau ysgrifennu, bydd hyn yn effeithio ar feysydd eraill lle defnyddir y sgiliau hyn. Felly, mae angen i'r ysgol gyfan fod yn ymwybodol o'r dulliau hyn mewn ieithoedd. Os oes gan ysgolion bolisi llythrennedd ysgol gyfan eisoes, mae angen sicrhau bod yr hyn sy'n digwydd mewn ieithoedd yn cael ei gefnogi ganddo.

I gefnogi dull cyffredin o addysgu iaith, gall ysgolion wneud y canlynol:

- sicrhau bod dysgu iaith a sgiliau iaith yn cael eu hystyried yn bethau pwysig a gwella ymwybyddiaeth ymhlith disgyblion, athrawon eraill, rhieni a llywodraethwyr
- creu amser ar gyfer cynllunio, datblygu adnoddau, gwerthuso a monitro
- cefnogi arsylwi gwersi mewn modd cynlluniedig a ffocysedig ar draws ieithoedd
- cefnogi HMS i athrawon iaith o fewn yr ysgol ac y tu allan iddi, fel sy'n briodol
- sicrhau bod athrawon sy'n mynychu gweithgareddau HMS iaith yn cael cyfle i roi adborth i bob athro/athrawes iaith

- sicrhau bod y sawl/rhai sy'n gyfrifol am lythrennedd a/neu faterion iaith ysgol gyfan yn chwarae rhan gefnogol o ran datblygu mentrau traws-iaith
- cefnogi'r dasg o rannu gwybodaeth am arfer dda sy'n deillio o ddull cyffredin ar gyfer addysgu iaith i weddill yr ysgol fel bod pynciau eraill yn gallu elwa o'r sgiliau iaith gwell a hefyd atgyfnerthu sgiliau cyffredin fel sy'n briodol.

### Cwestiynau posibl ar gyfer adolygu a gwerthuso arfer

- Ydy gwneud cysylltiadau wedi cael effaith ar gymhelliant a diddordeb disgyblion?
- Sut ydym ni'n monitro'r hyn y gall disgyblion ei wneud ar draws ieithoedd?
- Sut gallwn ni gael disgyblion i fonitro eu cynnydd eu hunain?
- Beth yw'r ffordd orau i ni adolygu cyd-gynllunio a dulliau yn gyson?
- Ydy disgyblion yn gwneud cynnydd gwell nag o'r blaen ar draws ieithoedd?
- Pa gymorth pellach allai fod ei angen wrth weithredu'r cysylltiadau?
- All gwneud cysylltiadau gael effaith ar feysydd eraill yn yr ysgol?

# Atodiad A – Defnyddio terminoleg gyffredin

Ar draws ieithoedd, dro ar ôl tro, mae disgyblion yn dod ar draws yr un cysyniadau, a'r un gofynion, ac yn aml, yr un rheolau neu reolau tebyg. Gall defnyddio'r un derminoleg ar gyfer termau gramadegol, sillafu, termau iaith a sgiliau gynnig cysondeb ar draws ieithoedd, y cyfle i adeiladu ar wybodaeth flaenorol mewn iaith arall ac atgyfnerthu cysyniadau allweddol. Mae'r rhestr termau yn cynnwys rhai o'r prif dermau y gall athrawon eu defnyddio, gyda diffiniadau syml y gellir eu hehangu a'u henghreifftio i ddisgyblion o fewn cyd-destun eu dysgu.

Mae'r diffiniadau a gynigir isod yn eithaf cyson â'r rheiny a ddefnyddir yn neunyddiau *National Literacy Strategy* yr Adran Addysg a Sgiliau, a'r rheiny a ddefnyddir ac a addasir gan nifer o ysgolion yng Nghymru. Cawsant eu drafftio i adlewyrchu'r derminoleg a ddefnyddir ar draws Saesneg, Cymraeg ac ieithoedd tramor modern. Felly mae'n bosibl na fydd rhai o'r termau yn briodol i bob iaith, e.e. treiglo.

Bydd angen i athrawon gynllunio sut y byddant yn defnyddio'r eirfa a bydd y cwestiynau canlynol yn helpu arwain y gwaith cynllunio hwnnw:

### Cwestiynau posibl ar gyfer adolygu a gwerthuso arfer

- Pa dermau a ddefnyddiwn yn rheolaidd eisoes?
- Sut gallwn ni wneud y defnydd gorau o'r rhestr termau?
- Pa gamau allwn ni eu cymryd i sicrhau cysondeb ar draws ieithoedd?

# Rhestr termau

## Gramadeg

**adferf** ***adverb***
Gair sy'n disgrifio neu'n goleddfu berf. Ceir gwahanol fathau o adferfau: modd; amser; lle; gradd.

**amhersonol** ***impersonal***
Pan nad yw'r ysgrifennwr yn dweud pwy sydd yn gweithredu, e.e. *daliwyd y lleidr …*

**amodol** ***conditional***
Ffurf ar ferf neu amser berfol sy'n cyfleu'r syniad bod yr hyn sy'n digwydd yn dibynnu ar rywbeth arall. Mae ffurfiau amodol yn aml yn cynnwys cysyllteiriau fel *os* neu *yna* a ffurfiau berfol fel *buasai* neu *gallai.*

**amser berfol** ***tense***
Y ffurf ar ferf sy'n dweud wrthym pryd mae rhywbeth yn digwydd, e.e. gorffennol, presennol neu ddyfodol.

**ansoddair** ***adjective***
Gair sy'n disgrifio neu'n goleddfu enw. Gall ddod cyn neu ar ôl enw, er enghraifft: *hen ddyn* neu *mae'r dyn yn hen.* Ceir gwahanol fathau o ansoddeiriau: nifer, e.e. *ychydig*; ansawdd, e.e. *da;* meddiannol, e.e. *fy;* gofynnol, e.e. *pa;* dangosol, e.e. *hwn.*

**arddodiad** ***preposition***
Geiriau sy'n disgrifio'r berthynas rhwng dau enw neu ragenw, e.e. *yn, ar, dan, rhwng.*

**atalnodi** ***punctuation***
Ffordd o farcio testun i helpu'r darllenydd ddeall (gweler yr adran ar atalnodi).

**bannod, y fannod** ***article***
Gair cysylltiedig ag enw - *y, yr, 'r.* Nid oes bannod amhendant yn Gymraeg.

**berf** ***verb***
Gair sy'n enwi gweithred neu gyflwr. Gall berfau fod mewn amserau gwahanol. Gall berf fod yn weithredol neu'n oddefol: <u>*Gyrrodd*</u> *Siân* <u>*y car*</u> (gweithredol), <u>*Gyrrwyd y car*</u> *gan Siân* (goddefol).

**berfenw** ***infinitive***
Y rhan o'r ferf sy'n dilyn ymadroddion fel *roedd yn rhaid i mi,* e.e. *mynd, taflu.*

**brawddeg** ***sentence***
Uned o iaith ysgrifenedig sy'n gwneud synnwyr ar ei phen ei hun. Gall brawddeg fod yn syml neu'n gymhleth a rhaid iddi gynnwys berf.

**cymal** ***clause***

Rhan benodol o frawddeg sy'n cynnwys berf. Ceir dau fath: prif gymal – *Gwnaf fy ngwaith cartref,* ac isgymal – *pan gyrhaeddaf adref.* Mae'r prif gymal yn gwneud synnwyr ar ei ben ei hun ond nid felly'r isgymal.

**cysylltair** ***conjunction***

Gair a ddefnyddir i gysylltu brawddegau neu gymalau neu i gysylltu geiriau mewn ymadrodd. Mae'n cyfleu gwahanol fathau o gysylltiad: achos, e.e. *oherwydd;* gwrthwyneb, e.e. *ond;* ychwanegiad, e.e. *a;* amser, e.e. *tan.*

**cytundeb** ***agreement***

Mae geiriau cysylltiedig yn cytuno â'i gilydd yn nhermau nifer, cyflwr, cenedl a pherson. Er enghraifft, *Dywedaf fi, dywedi di,* (person), *cariodd y merched eu llyfrau* (nifer).

**ebychiad** ***exclamation***

Brawddeg neu ymadrodd sy'n cyfleu emosiwn fel dychryn, syndod neu ryfeddod.

**enw** ***noun***

Gair sy'n enwi peth neu deimlad.

**goddrych** ***subject***

Y sawl neu'r peth sy'n cyflawni'r weithred a geir yn y ferf, e.e. *Bwytodd y ci yr asgwrn. Ysgrifennodd hi'r stori.*

**gorffennol** ***past***

Amser berfol sy'n cyfleu'r hyn a ddigwyddodd neu a oedd yn digwydd.

**gramadeg** ***grammar***

Y rheolau sy'n pennu'r berthynas rhwng geiriau mewn unrhyw iaith.

**gwrthrych** ***object***

Gwrthrych neu dderbyniwr y weithred mewn brawddeg, e.e. *taflodd y bêl.*

**lluosog** ***plural***

Ffurf ar enw, berf neu ragenw sy'n dangos bod mwy nag un.

**paragraff** ***paragraph***

Rhan o ddarn o waith ysgrifennu. Mae paragraff newydd yn dangos newid amser, lle, pwnc neu siaradwr mewn deialog ac mae'n dechrau ar linell newydd. Weithiau bydd yr ysgrifennwr hefyd yn defnyddio bwlch o linell neu fewnoliad ar y llinell gyntaf.

**person** ***person***

Term i ddangos rhan o'r ferf. Person cyntaf – *mi,* ail berson – *ti,* trydydd person *ef/hi.* Ceir y lluosog hefyd – *ni, chi, nhw.*

**presennol** ***present***
Amser berfol sy'n cyfleu beth sy'n digwydd ar hyn o bryd neu beth sy'n digwydd fel arfer.

**rhagenw** ***pronoun***
Gair a ddefnyddir yn lle enw neu ymadrodd enwol, e.e. *ef, hi.*

**rhangymeriad** ***participle***
Ffurfiau berfol, yn y presennol neu'r gorffennol. Mae'r rhangymeriad presennol yn disgrifio proses sy'n parhau, e.e. *yn (dal i ) cerdded ymlaen.*
Mae'r rhangymeriad gorffennol yn disgrifio proses sydd eisoes wedi digwydd.

**treiglad** ***mutation***
Dan amgylchiadau arbennig, mae cytsain yn newid i gytsain arall ar ddechrau gair.

**unigol** ***singular***
Ffurf ar enw, berf neu ragenw sy'n dangos mai ond un sydd.

**y dyfodol** ***future***
Amser berfol sy'n mynegi beth fydd yn digwydd.

**ymadrodd** ***phrase***
Dau air neu fwy sy'n ffurfio uned neu ran o frawddeg.

## Sillafu

**acen** ***accent***
Arwydd uwchben neu o dan lythyren sydd fel arfer yn newid yr ynganiad, e.e. *é, â, à, ö, ñ.*

**acronym** ***acronym***
Gair sy'n cynnwys llythrennau cyntaf ymadrodd, e.e. *ACCAC.*

**blaenddodiad** ***prefix***
Nifer o lythrennau a ychwanegir at ddechrau gair i newid ei ystyr, e.e. *<u>an</u>eglur.*

**cytsain** ***consonant***
Sain a gynhyrchir pan fydd siaradwyr yn defnyddio'u dannedd a'u tafodau. Holl lythrennau'r wyddor ac eithrio *a, e, i, o, u, w, y.*

**gair cyfansawdd** ***compound word***
Gair a wnaed o ddau air arall, e.e. llyfrgell.

**gair cytras** ***cognate***
Gair sy'n hanu o'r un gwreiddyn â gair mewn iaith arall, er nad yw o reidrwydd yn golygu'r un peth, e.e. *ystyr, history, histoire.*

**gwreiddair** ***root word***
Gair y gellir ychwanegu blaenddodiad neu ôl-ddodiad ato i wneud geiriau eraill, e.e. y gwreiddair yn *cyfeillion, cyfeillgar* ac *anghyfeillgar* yw cyfaill.

**llafariad** ***vowel***
Llythyren a gynhyrchir heb ffrithiant clywadwy o'r dannedd neu'r tafod – *a, e, i, o, u, w, y.*

**ôl-ddodiad** ***suffix***
Nifer o lythrennau a ychwanegir at ddiwedd gair i newid ei ystyr.

**onomatopoeia** ***onomatopeia***
Geiriau sy'n swnio'n debyg i'w hystyron, e.e. *cwcw, siffrwd, gwdihw.*

**rhestr termau** ***glossary***
Rhestr o eiriau neu ymadroddion lle esbonnir eu hystyron.

**sillaf** ***syllable***
Mae pob curiad mewn gair yn sillaf.

**talfyriad** ***abreviation***
Gair a wnaed yn fyrrach, e.e. *hysbys.*

**yr wyddor** ***alphabet***
Y rhestr o lythrennau a ddefnyddir i lunio geiriau'r iaith.

## Atalnodi

**atalnod ,** ***comma***
Fe'i defnyddir i wahanu rhannau o frawddeg neu restr.

**atalnod llawn .** ***full stop***
Fe'i defnyddir i ddangos diwedd brawddeg.

**colon :** ***colon***
Fe'i defnyddir i gyflwyno rhestr neu ail gymal sy'n ehangu neu'n enghreifftio'r cymal cyntaf.

**collnod '** ***apostrophe***
Fe'i defnyddir i ddangos cywasgu e.e. *mae'r* neu feddiant yn Saesneg, e.e. *the dog's basket.*

**dyfynodau " "** ***speech marks***
Fe'i defnyddir i ddangos llefaru uniongyrchol mewn testun.

**ebychnod !** ***exclamation***
Fe'i defnyddir ar ddiwedd brawddeg i gyfleu emosiwn fel sioc, hiwmor, dicter, hapusrwydd.

**gofynnod ?** ***question mark***
Fe'i defnyddir ar ddiwedd brawddeg i ddangos mai cwestiwn ydyw.

**hanner-colon ;** ***semi-colon***
Fe'i defnyddir i wahanu cymal neu ymadrodd mewn brawddeg. Mae'n gryfach na choma ond heb fod cyn gryfed ag atalnod llawn.

**seren** * ***asterisk***
Fe'i defnyddir i drefnu testun, e.e. i dynnu sylw at droednodyn.

## Termau iaith

**acen** ***accent***
Amrywiadau mewn ynganiad a thonyddiaeth yn ôl ardal neu wlad y siaradwr (gweler yr adran sillafu hefyd).

**anffurfiol** ***informal***
Iaith a ddefnyddir mewn cyd-destun cyfarwydd neu gyda phobl y mae'r siaradwr neu'r ysgrifennwr yn eu hadnabod.

**bratiaith** ***slang***
Geiriau neu ymadroddion a ddefnyddir mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Cysylltir hwy weithiau ag ardal neu grŵp o bobl.

**cerdd** ***poem***
Testun sy'n defnyddio rhythm, odl neu gystrawen a geirfa i gyfleu syniadau ac ystyr, a hynny ar ffurf gywasgedig yn aml.

**cymeriad** ***character***
Unigolyn mewn stori, cerdd neu ddrama.

**cynulleidfa** ***audience***
Y bobl neu'r darllenwyr y mae'r testun yn eu cyfarch.

**delweddaeth** ***imagery***
Defnyddio iaith i greu delwedd fywiog neu synhwyraidd, sy'n weledol yn aml.

**ffaith** ***fact***
Gwybodaeth a dderbynnir neu sy'n brofadwy ac a gefnogir gyda thystiolaeth.

**ffuglen** ***fiction***
Testun a ddyfeisiwyd gan siaradwr neu ysgrifennwr.

**ffurfiol** ***formal***
Iaith lafar neu ysgrifenedig a ddefnyddir mewn cyd-destun ffurfiol neu anghyfarwydd, e.e. cyfarch ymwelwyr, ysgrifennu llythyrau ffurfiol.

**goslef** ***intonation***
Tôn y llais a ddefnyddir gan siaradwyr i gyfleu ystyr. Mae goslef yn amrywio rhwng ieithoedd a'i gilydd.

**idiom** ***idiom***
Ymadrodd nas golygir yn llythrennol, ond a ddeëllir gan bobl sy'n ei ddefnyddio, e.e. a'i gwynt yn ei dwrn, a'i ben yn ei blu.

**llafar** ***colloquial***
Mae'n disgrifio sgwrs neu iaith a ddefnyddir mewn cyd-destun anffurfiol neu gyfarwydd.

**llefaru** ***speech***
Iaith siarad. Llefaru uniongyrchol yw'r geiriau a lefarwyd mewn gwirionedd, a dangosir hyn gyda dyfynodau, e.e. *"Eisteddwch!" meddai.* Llefaru anuniongyrchol yw'r hyn y mae ysgrifennwr yn dweud a lefarwyd, e.e. *dywedodd wrthi am eistedd.*

**odl** ***rhyme***
Dywedir bod geiriau sydd â'r un llythrennau yn y sillaf olaf yn odli, e.e. *aeth, daeth, llaeth.*

**tafodiaith** ***dialect***
Amrywiadau mewn ynganiad geirfa a chystrawen yn ôl ardal neu y siaradwr.

**testun** ***subject***
Iaith a drefnwyd i gyfathrebu ar ffurfiau llafar, ysgrifenedig neu electronig.

**testun cyfarwyddo** ***instruction text***
Testun a ysgrifennwyd i helpu'r darllenydd i wneud rhywbeth, e.e. cyfarwyddiadau, ryseitiau.

**testun gwybodaeth** ***information text***
Testun a ysgrifennwyd i drosglwyddo gwybodaeth, e.e. adroddiad, eglurhad neu ddisgrifiad.

**testun traethiadol** ***narrative text***
Testun sy'n adrodd digwyddiadau yn eu trefn amseryddol. Gall fod yn ffuglennol neu fe all gynnwys gwybodaeth.

**ynganiad** ***pronounciation***
Rheolau sy'n pennu'r ffordd y mae grwpiau o lythrennau'n swnio mewn iaith lafar. Mae rheolau ynganu'n wahanol mewn gwahanol ieithoedd.

## Sgiliau iaith

**ailddrafftio** ***redraft***
Diwygio, newid neu gywiro drafft cyntaf testun.

**dangos dealltwriaeth** ***comprehension***
Deall testun ysgrifenedig neu lafar. Gellir cyfleu deall drwy ymateb ar lafar neu'n ddi-iaith.

**darllen** ***reading***
Deall ac ymateb i destun ysgrifenedig, ar ffurf argraffedig, ysgrifenedig neu electronig.

**drafft** ***draft***
Ffurf ysgrifenedig gyntaf neu anorffenedig ar destun. Enw'r broses o weithio ar destun yw drafftio.

**golygu** ***edit***
Newid neu gywiro testun ysgrifenedig neu lafar.

**gwrando** ***listening***
Deall ac ymateb i iaith a leferir yn uniongyrchol wrth y gwrandäwr neu lefaru a recordiwyd.

**siarad** ***speaking***
Mynegi'ch hun ar lafar.

**ysgrifennu** ***writing***
Mynegi'ch hun ar ffurf ysgrifenedig.

# Atodiad B – Cynnydd yn y targedau cyrhaeddiad

Mae'r adrannau isod wedi'u rhannu yn Llafaredd (Siarad a Gwrando), Darllen ac Ysgrifennu ar gyfer Lefelau 1–3, Lefelau 4–5 a Lefelau 6–7. Mae'r pwyntiau bwled yn crynhoi nodweddion allweddol cynnydd ar draws y Gorchmynion ar gyfer Saesneg, Cymraeg, Cymraeg ail iaith a ITM ar gyfer y lefelau hyn. Mae'r gridiau yn mapio'r agweddau cyffredin allweddol yng nghyrhaeddiad disgyblion ar bob lefel ym mhob Gorchymyn ond nid ydynt yn atgynhyrchu'r disgrifiadau lefel yn llawn.

## Llafaredd (siarad a gwrando) Lefelau 1–3

Mae disgyblion yn dangos cynnydd mewn llafaredd (siarad a gwrando) drwy:

- ymateb i eitemau hwy, cyfathrebu gwybodaeth syml a defnyddio ystod gynyddol o eirfa a strwythurau
- siarad mewn ystod ehangach o gyd-destunau gyda hyder cynyddol
- dechrau dod yn ymwybodol o anghenion gwahanol y gwrandawyr.

| | Saesneg | Cymraeg | Cymraeg ail iaith | ITM |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Gwrando ar eraill ac ymateb yn briodol fel rheol. Siarad am faterion sydd o ddiddordeb uniongyrchol iddynt. Cyfleu ystyron syml, siarad yn hyglyw gan roi rhai manylion. | Gwrando ac ymateb yn briodol i ymadroddion, cyfarwyddiadau a chwestiynau syml. Siarad am faterion cyfarwydd. Siarad yn ddealladwy, ymateb i symbyliadau syml a chynnwys rhai manylion. | Deall geiriau ac ymadroddion a leferir yn eglur gan lais cyfarwydd. Siarad gan ynganu a goslefu'n ddealladwy. O gael cefnogaeth, cyfleu gwybodaeth syml, gofyn ac ateb cwestiynau. | Deall gorchmynion syml ystafell ddosbarth, gosodiadau a chwestiynau byr. Gall fod angen cymorth. Ymateb yn gryno gyda geiriau unigol/ymadroddion byr, ond gall fod angen cymorth. Gall ynganiad fod yn lledgywir. |
| 2 | Dechrau dangos hyder wrth siarad a gwrando, yn enwedig wrth siarad am dopigau sydd o ddiddordeb iddynt. Siarad yn glir gan ddefnyddio geirfa gynyddol. Gwrando'n ofalus ac ymateb yn fwyfwy priodol. Dechrau dod yn ymwybodol o sefyllfaoedd mwy ffurfiol. | Dechrau dangos hyder, yn arbennig wrth sgwrsio am faterion sydd o fewn eu profiad a'u diddordeb. Ceisio, deall a chyfleu gwybodaeth syml ac ymateb i ystod ehangach o symbyliadau. Defnyddio ystod gynyddol o eirfa a phatrymau sy'n gywir fel arfer. | Deall eitemau byr a leferir mewn llais cyfarwydd. Ceisio, deall a chyfleu gwybodaeth syml. Ymateb i ystod o symbyliadau. Wrth siarad, ynganu a goslefu'n ddealladwy, gan ddefnyddio ystod gynyddol o eirfa a phatrymau yn gywir fel arfer. | Deall amrywiaeth o osodiadau a chwestiynau cyfarwydd. Ymateb i fodel eglur o iaith safonol. Gall fod angen ailadrodd. Rhoi ymatebion byr i'r hyn byddant yn ei weld a'i glywed. Enwi a disgrifio pobl, lleoedd a gwrthrychau. Defnyddio ymadroddion parod. Gall ynganiad fod yn lledgywir ond bydd yr ystyr yn glir. |
| 3 | Siarad a gwrando'n hyderus mewn gwahanol gyd-destunau. Mewn trafodaeth, dangos eu bod yn deall y prif bwyntiau a'u bod wedi gwrando'n ofalus. Dechrau addasu'r hyn a ddywedant yn ôl anghenion gwahanol y gwrandawyr a bod yn ymwybodol o Saesneg safonol. | Sgwrsio gyda pheth hyder mewn gwahanol gyd-destunau am brofiadau a digwyddiadau. Gwrando'n ofalus ar eraill ac ymateb yn berthnasol iddynt gydag ymwybyddiaeth gynyddol o gynulleidfa ac amrywio iaith. Mynegi barn syml. Cyfleu gwybodaeth syml, bersonol a ffeithiol yn eglur gyda pheth cywirdeb. | Deall cyfres o eitemau byr a leferir mewn llais cyfarwydd. Deall a chyfleu gwybodaeth syml, bersonol a ffeithiol. Defnyddio ystod gynyddol o eirfa a phatrymau sy'n gywir fel arfer. Wrth siarad, byddant yn ynganu ac yn goslefu yn ddealladwy. | Deall darnau byr sy'n defnyddio iaith gyfarwydd a siaredir ar gyflymder sydd bron â bod yn naturiol. Adnabod a nodi prif bwyntiau ac ymatebion personol. Cymryd rhan mewn tasgau byr a baratowyd ymlaen llaw, cyfnewid sylwadau ddwy neu dair gwaith. Defnyddio ymadroddion byr i fynegi hoffterau a chas bethau. Defnyddio iaith sydd ar eu cof yn bennaf ond yn defnyddio geiriau ac ymadroddion eraill. |

## Darllen Lefelau 1–3

Mae disgyblion yn dangos cynnydd mewn darllen drwy:

- gysylltu sain â phrint
- darllen geiriau ac ymadroddion cyfarwydd unigol a symud ymlaen i destunau syml
- dechrau darllen yn annibynnol
- adnabod/mynegi barn
- adnabod/siarad am fanylion arwyddocaol.

| | Saesneg | Cymraeg | Cymraeg ail iaith | ITM |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Adnabod geiriau cyfarwydd mewn testunau syml. Defnyddio gwybodaeth o lythrennau i ddarllen geiriau unigol. Nodi'r agweddau y maent yn eu hoffi mewn cerddi, storïau a deunydd ffeithiol. | Adnabod geiriau cyfarwydd mewn testunau syml. Defnyddio gwybodaeth o lythrennau i ddarllen geiriau unigol. | Adnabod a deall geiriau unigol. Cysylltu ffurf geiriau â'u sain. | Deall geiriau unigol mewn sgript clir mewn cyd-destun cyfarwydd. Gall fod angen cymorth gweledol. |
| 2 | Darllen testunau syml a dangos dealltwriaeth. Defnyddio strategaethau, e.e. ffonig, graffig, cystrawennol, cyd-destunol i sefydlu ystyr. Mynegi barn am ddigwyddiadau neu syniadau o bwys. | Darllen testunau syml. Strategaethau, e.e. ffonig, graffig, cystrawennol, cyd-destunol i sefydlu ystyr. Mynegi barn ar y prif syniadau. | Adnabod geiriau ac ymadroddion syml a chyfarwydd sydd o fewn eu profiad. Darllen darnau syml. Ymateb ar lafar neu'n ddi-eiriau i'r cynnwys. | Deall darnau byr mewn cyd-destun cyfarwydd. Cysylltu sain â phrint drwy ddarllen ar goedd. Defnyddio llyfrau neu eirfaon i ddod o hyd i eiriau newydd. |
| 3 | Darllen ystod o destunau'n rhugl ac yn fanwl-gywir. Defnyddio strategaethau amrywiol i sefydlu ystyr. Mynegi barn a sôn am fanylion arwyddocaol yn y testun. Defnyddio gwybodaeth o'r wyddor i ddod o hyd i lyfrau a gwybodaeth. | Defnyddio amrywiaeth o strategaethau i sefydlu ystyr. Mynegi barn a sôn am fanylion arwyddocaol yn y testun. Defnyddio gwybodaeth o'r wyddor i ddod o hyd i lyfrau a gwybodaeth. | Deall ac ymateb i destunau syml mewn cyd-destunau cyfarwydd gydag ystod gynyddol o eiriau, ymadroddion a darnau byr. Dechrau darllen yn annibynnol. | Deall testunau a deialogau byr mewn iaith gyfarwydd. Adnabod a nodi prif bwyntiau, gan gynnwys hoffterau, cas bethau a theimladau. Dechrau dewis testunau syml i'w darllen yn annibynnol. Defnyddio geiriadur dwyieithog neu eirfa. |

## Ysgrifennu Lefelau 1–3

Mae disgyblion yn dangos cynnydd mewn ysgrifennu drwy:

- gopïo geiriau unigol
- cyfathrebu mewn geiriau ac ymadroddion syml gan ddefnyddio geirfa gyfarwydd
- ysgrifennu darnau byr mewn brawddegau cysylltiedig
- i syniadau ddod yn fwy synhwyrol gyda sillafu a gramadeg yn gywir fel arfer.

| | Saesneg | Cymraeg | Cymraeg ail iaith | ITM |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Cyfleu ystyr drwy ysgrifennu geiriau ac ymadroddion syml. Ymwybyddiaeth o sut mae defnyddio atalnod llawn. | Cyfathrebu drwy ysgrifennu geiriau, ymadroddion ac ambell frawddeg. Ymwybyddiaeth o sut i ddefnyddio atalnod llawn. | Copïo'n gywir rhai geiriau ac ymadroddion syml a chyfarwydd o'u cof. | Copïo geiriau unigol yn gywir. Dewis geiriau i gwblhau ymadroddion byr. |
| 2 | Cyfleu ystyr mewn ffurfiau naratif a ffeithiol. Datblygu syniadau mewn dilyniant o frawddegau. Geiriau unsill syml yn cael eu sillafu'n gywir, eraill yn gwneud synnwyr yn ffonetig. | Ysgrifennu darnau byr mewn ffurf greadigol a ffeithiol. Syniadau yn cael eu datblygu a brawddegau'n cael eu cysylltu a'u dilyniannu. Geiriau syml wedi'u sillafu'n gywir fel arfer. | Ysgrifennu geiriau, ymadroddion ac ambell frawddeg i gyfleu gwybodaeth ffeithiol a phersonol syml. Geiriau syml wedi'u sillafu'n gywir fel arfer. | Copïo ymadroddion cyfarwydd byr yn gywir. Ysgrifennu geiriau, arwyddion, cyfarwyddiadau a ddefnyddir yn y dosbarth. Pan fyddant yn ysgrifennu geiriau cyfarwydd oddi ar y cof, gall eu sillafu fod yn lledgywir. |
| 3 | Ysgrifennu'n drefnus, yn ddychmygus ac yn glir yn aml. Brawddegau a dilyniannu yn rhesymegol. Dewisir geiriau i sicrhau amrywiaeth a diddordeb. Gramadeg sylfaenol, atalnodi a sillafu yn gywir fel rheol. | Ysgrifennu'n glir ac yn drefnus fel arfer mewn ffurf greadigol a ffeithiol. Dangos gafael ar ddilyniant. Syniadau synhwyrol ac amrywio peth ar frawddegau. Brawddegau sylfaenol a geirfa yn weddol gywir. | Ysgrifennu brawddegau sylfaenol byr, gan ddefnyddio geirfa addas a chyfarwydd. Geiriau syml wedi eu sillafu'n gywir fel arfer. Peth ymwybyddiaeth o atalnodi sylfaenol. | Ysgrifennu dwy neu dair brawddeg fer ar destunau cyfarwydd gyda chymorth. Mynegi ymatebion personol megis hoffterau a chas bethau. Ysgrifennu ymadroddion byr oddi ar y cof. Sillafu yn ddealladwy. |

## Llafaredd (siarad a gwrando) Lefelau 4–5

Mae disgyblion yn dangos cynnydd mewn llafaredd (siarad a gwrando) drwy:

- ddeall y prif bwyntiau a pheth o'r manylion pan fyddant yn gwrando ar eitemau byr, a symud ymlaen at eitemau hwy ac ystod ehangach o dopigau
- cymryd rhan mewn sgyrsiau syml
- cychwyn sgyrsiau a rhoi rhesymau syml
- siarad am brofiadau a digwyddiadau gyda pheth gywirdeb, gan gynnwys defnyddio amserau berfol eraill
- siarad a gwrando'n hyderus
- cyfleu barn a chyfrannu at drafodaeth
- symud ymlaen i siarad mewn ystod eang o gyd-destunau, gan gynnwys sefyllfaoedd mwy ffurfiol
- cyfrannu at drafodaethau, gan ystyried barn pobl eraill
- ennyn diddordeb gwrandawyr trwy amrywio eu hiaith.

| | Saesneg | Cymraeg | Cymraeg ail iaith | ITM |
|---|---|---|---|---|
| 4 | Siarad a gwrando'n hyderus mewn ystod gynyddol o gyd-destunau. Addasu eu siarad i'r pwrpas, disgrifio digwyddiadau, cyfleu barn yn glir. Mewn trafodaeth, byddant yn gwrando'n ofalus, yn gwneud cyfraniadau ac yn gofyn cwestiynau. Defnyddio rhai o nodweddion geirfa a gramadeg Saesneg safonol yn briodol. | Sgwrsio'n hyderus mewn ystod o gyd-destunau. Cyflwyno gwybodaeth a sôn am brofiadau gan ddangos ymwybyddiaeth o ddilyniant ac olyniaeth. Mynegi barn yn glir. Dangos ymwybyddiaeth o'r gynulleidfa. Mewn trafodaethau, gwrando'n ofalus ac ymateb gyda chwestiynau a chynnig sylwadau. Amrywiaeth cynyddol o ymadroddion a phatrymau brawddegol. | Deall prif bwyntiau mewn cyd-destunau cyfarwydd ac ymgynefino â lleisiau gwahanol. Cyflwyno gwybodaeth a sôn am brofiadau. Cynnig sylwadau neu eglurhad. Defnyddio amrywiaeth cynyddol o ymadroddion a phatrymau brawddegol gyda pheth cywirdeb. | Deall darnau hwy sy'n defnyddio iaith gyfarwydd mewn brawddegau syml a siaredir ar gyflymder sydd bron â bod yn naturiol. Adnabod a nodi prif bwyntiau a rhai manylion. Cymryd rhan mewn sgyrsiau strwythuredig syml sy'n cynnwys cyfnewid sylwadau o leiaf dair neu bedair gwaith. Ynganu'n gywir gan fwyaf a goslefu'n gyson. |
| 5 | Siarad a gwrando'n hyderus mewn ystod eang o gyd-destunau, gan gynnwys sefyllfaoedd mwy ffurfiol. Ennyn diddordeb y gwrandäwr drwy amrywio mynegiant a geirfa. Mewn trafodaeth rhoi sylw manwl i'r hyn a ddywedir gan eraill gan ofyn cwestiynau, gwneud cyfraniadau a chymryd barn eraill i ystyriaeth. Dechrau defnyddio Saesneg safonol mewn sefyllfaoedd ffurfiol. | Sgwrsio'n hyderus mewn ystod eang o gyd-destunau. Mewn trafodaeth, rhoi sylw manwl i gyfraniadau eraill trwy ofyn cwestiynau a gwneud cyfraniadau, a chymryd barn eraill i ystyriaeth. Addasu eu sgwrs yn bwrpasol. Rhoi rhesymau i gefnogi barn. Cyflwyno gwybodaeth yn effeithiol. Dangos gafael weddol dda ar gystrawen naturiol yr iaith lafar. | Deall ac ymateb i eitemau hwy mewn sefyllfaoedd cyfarwydd. Cychwyn sgwrs a dangos peth ymwybyddiaeth o ddilyniant ac olyniaeth. Rhoi rhesymau syml. Siarad yn ddealladwy. Defnyddio amrywiaeth o ymadroddion a phatrymau brawddegol – mesur da o gywirdeb. | Deall detholiadau o iaith gyfarwydd o amryw o destunau, gan gynnwys y presennol, y gorffennol neu'r dyfodol. Adnabod a nodi'r prif bwyntiau a manylion penodol a barn. Cymryd rhan mewn sgyrsiau byr, gan gynnwys rhoi barn a'r gorffennol neu'r dyfodol. Rhai gwallau, ond yn mynegi eu hunain heb lawer o anhawster. |

## Darllen Lefelau 4–5

Mae disgyblion yn dangos cynnydd mewn darllen drwy:

- ddeall testunau byr ac adnabod prif bwyntiau a manylion
- deall ystod o ddeunydd a darllen yn annibynnol
- codi a choladu gwybodaeth o amryw o ffynonellau
- deall y prif syniadau, digwyddiadau a chymeriadau
- tynnu casgliadau a mynegi barn am yr hyn a ddarllenasant.

| | Saesneg | Cymraeg | Cymraeg ail iaith | ITM |
|---|---|---|---|---|
| 4 | Ymateb i ystod o destunau. Deall syniadau, digwyddiadau a chymeriadau pwysig. Dechrau defnyddio casglu a diddwytho. Dod o hyd i syniadau a gwybodaeth a'u defnyddio. | Darllen yn glir ac yn llawn mynegiant i ystod o destunau gan ddangos dealltwriaeth o'r prif syniadau, digwyddiadau a chymeriadau. Codi gwybodaeth o fwy nag un ffynhonnell brint gan ei defnyddio'n briodol. | Deall prif rediad paragraffau a sgyrsiau. Deall manylion arwyddocaol. Datblygu fel darllenwyr annibynnol a darllen darnau cyfarwydd yn glir, gyda mynegiant. | Deall straeon byrion a thestunau ffeithiol. Adnabod prif bwyntiau a rhai manylion. Defnyddio'r cyd-destun i ddeall ystyr iaith anghyfarwydd. |
| 5 | Deall ystod o destunau. Dewis y pwyntiau hanfodol a defnyddio casglu a diddwytho. Nodi nodweddion, themâu a chymeriadau allweddol a dewis testun perthnasol i ategu barn. | Deall ystod o destunau. Tynnu casgliadau ac ymateb trwy fynegi barn. Cyfeirio at blot, cymeriadau a nodweddion allweddol gan ddethol testun perthnasol i gefnogi eu safbwynt. Adfer a choladu gwybodaeth o ystod o ffynonellau. | Deall y prif syniadau mewn amryw o destunau. Dewis gwybodaeth berthnasol a mynegi barn. Darllen yn annibynnol a darllen ar goedd gyda mynegiant. | Deall amrywiaeth o destunau, gan gynnwys digwyddiadau yn y gorffennol neu'r dyfodol. Adnabod y prif bwyntiau a manylion penodol a safbwyntiau. Darllen annibynnol yn cynnwys deunyddiau dilys. Yn hyderus wrth ddarllen ar goedd a defnyddio deunyddiau cyfeiriol. |

## Ysgrifennu Lefelau 4–5

Mae disgyblion yn dangos cynnydd mewn ysgrifennu drwy:

- gynhyrchu darnau ysgrifennu hwy a mwy trefnus
- bod yn gynyddol gywir
- defnyddio ystod ehangach o gystrawennau a ffurfiau a mynegi barn
- dewis geirfa fwy mentrus ac ysgrifennu brawddegau mwy cymhleth
- ysgrifennu i wahanol ddibenion.

| | Saesneg | Cymraeg | Cymraeg ail iaith | ITM |
|---|---|---|---|---|
| 4 | Ysgrifennu mewn ystod o ffurfiau. Ysgrifennu yn fywiog ac yn fyfyrgar. Dewis geiriau'n fentrus a defnyddio geiriau i sicrhau effaith. Dechrau estyn ystyr drwy ddefnyddio brawddegau sy'n ramadegol gymhleth. Sillafu ac ystod o atalnodi yn gywir ar y cyfan. | Ysgrifennu mewn ystod o ffurfiau. Mynegi barn yn syml a chynnal syniadau. Defnyddio paragraffau i ddilyniannu gwaith. Dangos gwreiddioldeb wrth ddethol geiriau i greu effeithiau. Defnyddio cystrawennau mwy amrywiol a chymhleth. Sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir a threiglo'n gywir ar adegau. | Ysgrifennu brawddegau cysylltiedig gan ddangos peth gafael ar drefn a dilyniant. Amrywio patrymau a chynhyrchu brawddegau sylfaenol sy'n weddol gywir. Sillafu a defnyddio atalnodi yn gywir fel arfer. | Ysgrifennu paragraffau unigol o dair neu bedair brawddeg syml, gan ddibynnu i raddau helaeth ar iaith sydd ar y cof. Addasu model drwy newid geiriau unigol ac ymadroddion parod. |
| 5 | Gwaith ysgrifennu yn amrywiol a diddorol. Defnyddio ystod o ffurfiau ar gyfer darllenwyr gwahanol. Dewisir geirfa'n ddychmygus a defnyddir geiriau'n fanwl-gywir. Brawddegau syml a chymhleth wedi'u trefnu mewn paragraffau. | Ysgrifennu'n amrywiol ac yn ddiddorol ac yn cynnwys paragraffau ac ystod o gystrawennau. Defnyddio ystod o ffurfiau i amrywiaeth o bwrpasau. Cymryd cynulleidfa a phwrpas i ystyriaeth. Defnyddio ystod o iaith sy'n weddol gywir, gan gynnwys treigliadau ac yn Gymraeg ei naws. | Ysgrifennu brawddegau cysylltiedig a datblygu syniadau gan ddangos gafael ar drefn a dilyniant. Dethol geiriau ac ymadroddion addas i'r pwrpas a'u hamrywio rhywfaint. Mynegi barn yn syml. Sillafu ac atalnodi'n gywir. | Darnau byr o ysgrifennu mewn brawddegau syml. Ceisio a throsglwyddo gwybodaeth a safbwyntiau. Cyfeirio at brofiad diweddar neu gynlluniau ar gyfer y dyfodol. Rhai gwallau ond yr ystyr yn glir. |

## Llafaredd (siarad a gwrando) Lefelau 6–7

Mae disgyblion yn dangos cynnydd mewn llafaredd (siarad a gwrando) drwy:

- ddeall manylion penodol a safbwyntiau o ystod o sefyllfaoedd
- cymryd rhan mewn sgyrsiau, gallu defnyddio'r amser gorffennol, y presennol a'r dyfodol
- gwrando ac ymateb mewn trafodaeth
- cychwyn a datblygu sgyrsiau
- deall a defnyddio ystod o iaith gan gynnwys brawddegau cymhleth
- addasu llafar yn ôl gofynion gwahanol gyd-destunau
- ennyn diddordeb y gwrandäwr trwy amrywiaeth o eirfa a mynegiant
- gwneud cyfraniadau arwyddocaol i drafodaethau
- cyfathrebu mewn ffordd glir a threfnus a chefnogi eu barn gyda thystiolaeth.

| | Saesneg | Cymraeg | Cymraeg ail iaith | ITM |
|---|---|---|---|---|
| 6 | Addasu eu siarad yn ôl gofynion gwahanol gyd-destunau yn fwyfwy hyderus. Ennyn diddordeb y gwrandäwr oherwydd amrywiaeth yr eirfa a mynegiant. Chwarae rhan weithgar mewn trafodaeth gan ddangos dealltwriaeth o syniadau a bod yn sensitif i eraill. Fel rheol yn rhugl eu defnydd o Saesneg safonol mewn sefyllfaoedd ffurfiol. | Addasu sgwrs yn ôl gofynion ystod eang o gyd-destunau. Cyflwyno gwybodaeth a phrofiadau yn fwyfwy hyderus. Ennyn diddordeb eraill drwy amrywio mynegiant a geirfa. Ystyried cyfraniadau eraill ac ymateb gyda sensitifrwydd. Mynegi barn gan ddefnyddio tystiolaeth ar brydiau. Dangos gafael eithaf sicr ar gystrawen naturiol yr iaith lafar. Amrywio iaith yn ôl y cywair. | Deall manylion penodol mewn amryw o sefyllfaoedd cyfarwydd. Gwrando ac ymateb mewn trafodaeth. Mynegi barn gyda rhai rhesymau. Defnyddio amrywiaeth cynyddol o ymadroddion a phatrymau brawddegol, gan amrywio amser a pherson y ferf yn gywir. | Deall darnau naratif byr, darnau ac iaith gyfarwydd mewn cyd-destunau anghyfarwydd gan gynnwys digwyddiadau yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol a siaredir ar gyflymder naturiol. Adnabod a nodi prif bwyntiau a manylion penodol a safbwyntiau. Cymryd rhan mewn sgyrsiau, gan gynnwys y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Defnyddio gwybodaeth o ramadeg mewn cyd-destunau newydd. Yn betrusgar ar brydiau, ond yr ystyr yn glir. |
| 7 | Yn hyderus wrth gydweddu siarad â gofynion y cyd-destun. Defnyddio geirfa'n fanwl-gywir a threfnu eu siarad er mwyn cyfathrebu'n glir. Mewn trafodaeth, gwneud cyfraniadau arwyddocaol. Gwerthuso syniadau pobl eraill ac amrywio sut a phryd i gyfranogi. Defnyddio Saesneg safonol yn hyderus pan fydd angen. | Addasu sgwrs yn ôl gofynion ystod eang o gyd-destunau yn hyderus ac yn defnyddio iaith briodol. Cyfathrebu'n eglur a threfnus gan wneud cyfraniadau sylweddol i'r sgwrs. Mynegi barn gan ddethol tystiolaeth i gefnogi eu safbwynt. Gafael gadarn ar gystrawen yr iaith lafar. | Deall ac ymateb i ystod o iaith lafar sy'n cynnwys brawddegau cymhleth. Mewn trafodaeth, rhoi sylw manwl i safbwyntiau pobl eraill. Datblygu sgwrs yn bwrpasol. Mynegi barn gan ddefnyddio tystiolaeth ar brydiau. Siarad yn rhwydd ac yn weddol gywir gan ddangos gafael da ar gystrawen naturiol. | Deall amrywiaeth o ddeunydd sy'n cynnwys rhai brawddegau cymhleth ac iaith anghyfarwydd. Deall eitemau newyddion a deunydd aneffeithiol a siaredir ar gyflymder naturiol. Cychwyn a datblygu sgyrsiau. Trafod materion sydd o ddiddordeb personol neu destunol. Siarad gan ynganu'n dda. Yr iaith yn gywir fel arfer. |

## Darllen Lefelau 6–7

Mae disgyblion yn dangos cynnydd mewn darllen drwy:

- ddarllen testunau hwy a mwy cymhleth
- defnyddio ystod o ffynonellau cyfeiriol
- darllen testunau estynedig yn annibynnol
- ymateb yn bersonol ac yn feirniadol i destunau llenyddol
- cyfeirio at gystrawen a themâu a chyfiawnhau eu barn
- dewis a chyfuno gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau.

| | Saesneg | Cymraeg | Cymraeg ail iaith | ITM |
|---|---|---|---|---|
| 6 | Wrth ddarllen a thrafod testunau, adnabod gwahanol haenau o ystyr a chyflwyno sylwadau ar arwyddocâd ac effaith. Mynegi ymatebion personol i destunau llenyddol, gan gyfeirio at strwythur iaith a themâu a chyfiawnhau barn. Crynhoi ystod o wybodaeth o wahanol ffynonellau. | Wrth ddarllen a thrafod testunau, adnabod gwahanol haenau o ystyr a chyflwyno sylwadau ar arwyddocâd ac effaith. Mynegi barn bersonol ar destunau llenyddol, cyfeirio at strwythur iaith a themâu a chyfiawnhau barn. Crynhoi gwybodaeth berthnasol o wahanol ffynonellau. | Deall deunydd sydd o fewn eu profiad gan gynnwys rhai testunau dilys. Mynegi barn am y cynnwys gyda rhesymau. Codi gwybodaeth o fwy nag un ffynhonnell a'i defnyddio'n briodol. Darllen testunau estynedig yn annibynnol. | Deall amrywiaeth o destunau sy'n trin digwyddiadau yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol gan gynnwys iaith gyfarwydd mewn cyd-destunau anghyfarwydd. Nodi prif bwyntiau, manylion penodol a safbwyntiau. Cip-ddarllen a dewis llyfrau a thestunau ar gyfer darllen yn annibynnol. Dod o hyd i ystyr iaith anghyfarwydd o'r cyd-destun a dealltwriaeth ramadegol. |
| 7 | Deall y modd y cyflëir ystyr a gwybodaeth mewn ystod o destunau. Mynegi ymatebion personol a beirniadol i gerddi, dramâu a nofelau. Dewis a chyfuno gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau. | Deall y modd y cyflwynir ystyr mewn ystod o destunau. Mynegi barn yn ddeheuig ar yr hyn a ddarllenant. Cyfeirio at agweddau gwahanol a'u dadansoddi. Dewis a chyfuno gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau. | Darllen a deall detholiad o ddeunydd gan gynnwys peth deunydd dilys. Mynegi barn a chyfeirio at blot, cymeriadau a nodweddion allweddol. Adfer a choladu gwybodaeth o ystod o ffynonellau. | Deall amrywiaeth o ddeunyddiau dychmygus a ffeithiol sy'n cynnwys brawddegau cymhleth ac iaith anghyfarwydd. Defnyddio deunyddiau cyfeiriol fel y bo'n briodol. |

## Ysgrifennu Lefelau 6–7

Mae disgyblion yn dangos cynnydd mewn ysgrifennu drwy:

- ddefnyddio paragraffau ac ystod ehangach o strwythur
- defnyddio ystod gynyddol o iaith yn gywir
- cadw diddordeb trwy addasu arddull a chywair i'w cynulleidfa
- ysgrifennu mewn ffordd fwyfwy hyderus a threfnus.

| | Saesneg | Cymraeg | Cymraeg ail iaith | ITM |
|---|---|---|---|---|
| 6 | Ysgrifennu yn cadw diddordeb y darllenydd. Peth addasu ar yr arddull a'r cywair yn ôl gwahanol ffurfiau. Amrywiaeth o batrymau brawddegol a geirfa amrywiol. Sillafu yn gywir fel rheol ac ysgrifennu wedi'i drefnu mewn paragraffau gan ddefnyddio ystod o farciau atalnodi. | Ysgrifennu yn cynnal diddordeb drwy ddewis bwriadol o iaith a syniadau. Arddull, iaith a chywair priodol. Syniadau wedi'u trefnu mewn paragraffau. Gafael sicr ar gystrawen ac idiom. Treiglo a sillafu'n gywir fel arfer. | Dethol geiriau ac ymadroddion addas i'r pwrpas a chreu effeithiau yn eu hysgrifennu. Defnyddio paragraffau ac ystod o gystrawennau. Mynegi barn gan gynnig ambell reswm. Sillafu ac atalnodi yn gywir fel arfer. | Ysgrifennu mewn paragraffau gan ddefnyddio iaith ddisgrifiadol syml. Cyfeirio at weithredoedd yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Defnyddio gwybodaeth o ramadeg mewn cyd-destunau newydd. Rhai gwallau, ond yr ystyr yn eglur. |
| 7 | Ysgrifennu'n hyderus a dewis arddull briodol mewn ystod o ffurfiau. Syniadau'n drefnus a chydlynol gan ddefnyddio paragraffau ac atalnodi'n gywir. Nodweddion gramadegol a geirfa'n gywir ac yn effeithiol. Sillafu'n gywir. | Ysgrifennu'n hyderus a dewis arddull briodol mewn ystod o ffurfiau. Syniadau'n drefnus a chydlynol gan ddefnyddio paragraffau ac atalnodi'n gywir fel arfer. Cynnig tystiolaeth i gefnogi barn. Sillafu geiriau cymhleth, afreolaidd yn gywir fel arfer. | Defnyddio iaith yn fwriadol i fanylu ar brofiadau a digwyddiadau cyfarwydd. Cefnogi barn â rhesymau. Defnyddio atalnodi a pharagraffau i gynhyrchu darnau o ysgrifennu trefnus a chlir. Gafael eithaf sicr ar gystrawen a naws Gymraeg i'r gwaith. | Darnau ysgrifenedig o hyd amrywiol ar ystod o bynciau gan ddefnyddio'r cywair priodol. Cysylltu brawddegau a pharagraffau a strwythuro syniadau. Addasu iaith a ddysgwyd yn barod a'i defnyddio mewn gwahanol gyd-destunau. Golygu ac ailddrafftio gwaith. Gwallau achlysurol, ond yr ystyr yn eglur. |

# Atodiad C

## Canllawiau ar gyfer cynnydd mewn gramadeg a sgiliau mewn ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 3

Mae'r tabl cyferbyn yn cynrychioli'r strwythurau a'r sgiliau sy'n nodweddiadol o'r hyn y byddai disgybl sy'n astudio iaith dramor fodern ( ITM ) yng Nghyfnod Allweddol 3 yn eu dysgu ym Mlwyddyn 7, 8 a 9. Bwriedir iddo gyfateb yn agos â gofynion y rhaglen astudio ar gyfer ITM yng Nghymru ac adlewyrchu'r lefelau cyrhaeddiad a ddisgwylir ar ddiwedd y cyfnod allweddol. Dylai disgyblion gael eu cyflwyno i iaith ac ymarfer iaith trwy'r ystod o weithgareddau dysgu yn y rhaglen astudio, y Meysydd o Brofiad a dylent ddatblygu eu dealltwriaeth o gyd-destun diwylliannol yr iaith y maen nhw'n ei hastudio.

Nid yw'r canllawiau yn iaith-benodol ac nid ydynt yn rhagnodol. Mae'r strwythurau a restrir heb gael eu rhestru yn y drefn y byddent yn cael eu haddysgu o anghenraid (gall rhai strwythurau fod yn fwy anodd mewn ieithoedd gwahanol). Bydd angen i athrawon ychwanegu atynt, eu haddasu a'u hailadrodd yn ogystal â chynnwys nodweddion iaith-benodol fel y bo angen. Gall disgyblion cyrhaeddiad uwch ddysgu'n gyflymach ac mae'n bosib na fydd disgyblion cyrhaeddiad is yn dysgu'r iaith mor gyflym ag a nodir. Bydd faint o amser a roddir i'r iaith yn y cwricwlwm hefyd yn effeithio ar gynnydd.

Dylid defnyddio'r canllawiau ochr yn ochr â'r rhaglen astudio a'r disgrifiadau lefel. Gall gynorthwyo athrawon iaith wrth iddynt gynllunio ar gyfer cynnydd ac wrth iddynt ddatblygu cynlluniau gwaith.

| Blwyddyn | Gramadeg/Strwythurau | Sgiliau |
|---|---|---|
| Blwyddyn 7 | • rhifau<br>• yr wyddor<br>• amser<br>• bannod amhendant a phendant<br>• enwau cenedl a rhagenwau<br>• unigol a lluosog<br>• rhagenwau goddrychol<br>• ansoddeiriau<br>• ansoddeiriau meddiannol<br>• berfau rheolaidd amser presennol<br>• berfau afreolaidd mwyaf cyffredin<br>• berfau atblygol cyffredin<br>• negyddol syml<br>• cysyllteiriau syml<br>• geiriau cwestiwn sylfaenol<br>• ‘mae’ | • cysylltu seiniau a sillafiadau<br>• ynganu’n gywir<br>• gwneud nodiadau a chyfeirio atynt<br>• adnabod geiriau cytras<br>• deall cyfarwyddiadau<br>• dechrau defnyddio rheolau<br>• defnyddio technegau ar gyfer dysgu ar y cof<br>• dechrau defnyddio geirfa/geiriadur<br>• edrych dros waith i wella<br>• gofyn ac ateb cwestiynau<br>• mynegi barn syml<br>• ffurfio brawddegau syml<br>• dechrau defnyddio iaith yn annibynnol<br>• dechrau defnyddio peth iaith a glywir neu a ddarllenir i’w defnyddio mewn sgwrs ac ysgrifennu eich hun<br>• defnyddio’r iaith darged ar gyfer anghenion syml yr ystafell ddosbarth<br>• gwrando’n astud ac adnabod prif bwyntiau<br>• ysgrifennu testunau byr |
| Blwyddyn 8 | • nifer a maint, e.e. gyda bwyd, dillad, ayb.<br>• ansoddeiriau cymharol<br>• ansoddeiriau dangosol<br>• adferfau amser syml<br>• berfenwau cyffredin<br>• dyfodol syml<br>• cyflwyno’r amser gorffennol<br>• amser presennol berfau afreolaidd mwy cyffredin | • defnyddio tablau berfau, geiriadur a llyfrau cyfeiriol mewn gwerslyfr/llyfr gwaith<br>• gwneud nodiadau<br>• dechrau delio â’r anrhagweladwy<br>• ystod gynyddol o iaith y dosbarth<br>• cychwyn a datblygu sgyrsiau<br>• gwrando am brif bwyntiau a manylion<br>• darllen testunau hwy<br>• dechrau darllen yn annibynnol<br>• ffurfio brawddegau hwy a chynhyrchu sgwrs ac ysgrifennu mwy estynedig<br>• dechrau defnyddio amserau eraill heblaw’r presennol |
| Blwyddyn 9 | • rhagenwau gwrthrychol<br>• ansoddeiriau - y radd eithaf<br>• mwy o waith ar yr amser gorffennol<br>• amser dyfodol<br>• ffurfiau negyddol llai cyffredin<br>• adferfau a geiriau cysylltu | • drafftio ac ail-ddrafftio<br>• cymhwyso gwybodaeth o ramadeg mewn cyd-destunau newydd<br>• deall a defnyddio iaith fwy cymhleth<br>• defnyddio amserau gwahanol<br>• mynegi barn gyda rhesymau<br>• deall a defnyddio iaith ffurfiol ac anffurfiol<br>• siarad ac ysgrifennu yn hwy ac i wahanol bwrpasau<br>• gwrando a darllen testun mwy estynedig<br>• darllen am wybodaeth a phleser<br>• ailgylchu iaith a glywir neu a ddarllenir i’w defnyddio mewn sgwrs ac ysgrifennu eich hun<br>• crynhoi ac adrodd gwybodaeth o destunau llafar ac ysgrifenedig |

# Atodiad Ch – Cyhoeddiadau defnyddiol a chyfeiriadau safweoedd

## ACCAC

*Y Cwricwlwm Ysgol yng Nghymru,* 2000

*INSET Activities for Developing Higher Order Reading Skills at KS2,* 1996
*Datblygu Uwch-Sgiliau Darllen Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2: Pecyn HMS,* 1996
*Optional Assessment Materials for English at Key Stage 2,* 1999
*Optional Assessment Materials for English at Key Stage 3,* 2000
*Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Cymraeg Cyfnod Allweddol 2,* 2001
*Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Cymraeg Cyfnod Allweddol 3,* 2002
*Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Cymraeg ail iaith Cyfnod Allweddol 2,* 2003
*Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Cymraeg ail iaith Cyfnod Allweddol 3,* 2003

*Gofyn Cwestiynau, Cael Atebion: Adroddiad prosiect ymchwil ar bolisïau iaith ysgol gyfan yn ysgolion uwchradd Cymru,* 1999

*Strwythur ar gyfer Llwyddo - Arweiniad ar y Cwricwlwm Cenedlaethol ac Anhwylder Sbectrwm Awtistig,* 2000

*Disgyblion Heriol: Galluogi Mynediad - Cwrdd ag Anghenion Cwricwlaidd Disgyblion ag Anawsterau Emosiynol ac Ymddygiadol,* 2000

*Sgiliau ar draws y Cwricwlwm - Cyfnodau Allweddol 1-3,* 2002

*Anelu at Ragoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 3. Codi Safonau mewn Llythrennedd a Rhifedd* (BBC, Estyn, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ACCAC), 2003

ACCAC, Adeiladau'r Castell, Stryd Womanby, Caerdydd CF10 1SX
Ffôn: 029 2037 5400  Ffacs: 029 2034 3612
E-bost: info @accac.org.uk
Safwe: www.accac.org.uk

## Estyn

*Fframwaith ar gyfer Arolygu Ysgolion,* Diwygiwyd 2000
*Llawlyfr ar gyfer Arolygu Ysgolion,* Diwygiwyd 2000

*Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru,* 2001-2002
*Codi Safonau Darllen mewn Ysgolion Cynradd,* 1999
*Codi Safonau Ysgrifennu mewn Ysgolion Cynradd,* 2001
*Codi Safonau Sillafu Saesneg mewn Ysgolion Cynradd,* 2001
*Safonau ac Ansawdd mewn Ysgolion Cynradd: Cynllunio trwy waith topig yng Nghyfnodau Allweddol 1 a 2,* 2000
*Safonau ac ansawdd mewn ysgolion cynradd: Taflenni pwnc,* 2001
*Y Bartneriaeth rhwng ysgolion Cynradd ac Uwchradd: Gwella Dysgu a Pherfformiad,* 1999

*Safonau ac ansawdd mewn ysgolion uwchradd: Taflenni pwnc,* 2001
*Anelu at Ragoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 3,* 2002
*Anelu at Ragoriaeth yn y Ddarpariaeth ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig,* 2001
*Datblygu llythrennedd deuol: Papur trafod Estyn,* 2002
*Safonau ac Ansawdd mewn Ysgolion Uwchradd: Anelu at Ragoriaeth mewn Ieithoedd Tramor Modern,* 2002

Estyn, Llys yr Angor, Ffordd Keen, Caerdydd CF24 5JW
Ffôn: 029 2044 6446 Ffacs: 029 2044 6448
E-bost: enquiries@estyn.gsi.gov.uk
Safwe: www.estyn.gov.uk

## CILT Cymru

*Developing Speaking Skills,* CILT, 1999

*Ieithoedd Tramor Modern yng Nghyfnod Allweddol 2 - gwybodaeth*

CILT Cymru, Cambrian Buildings, Sgwâr Mount Street, Caerdydd CF10 5FL
Ffôn: 029 2048 0137
E-bost: info@ciltcymru.org.uk
Safwe: www.ciltcymru.org.uk

## Llywodraeth Cynulliad Cymru

*Codi Safonau Llythrennedd mewn Ysgolion Cynradd: Fframwaith ar gyfer Gweithredu yng Nghymru,* Swyddfa Gymreig/SPAEM 1998

*Ieithoedd sy'n Cyfrif: Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Ieithoedd Tramor Modern,* 2002

Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 5111
E-bost: education.publications@wales.gsi.gov.uk
Safwe: www.cymru.gov.uk; www.dysgu.cymru.org.uk

## Safweoedd defnyddiol eraill

Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm Lloegr (QCA)
www.qca.org.uk

Canolfan Ymgynghori Genedlaethol ar Ddysgu Iaith Cynnar (NACELL)
www.nacell.org.uk

Portffolio Iaith Ewrop (ELP)
www.nacell.org.uk/elp.htm

Dysgu ac Addysgu yr Alban (LTS)
www.LTScotland.com

Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu Gogledd Iwerddon (CCEA)
www.ccea.org.uk

# Nodiadau